




Ministry  
of Justice

# Diwygio'r cynllun dileu ffioedd 'Help i Dalu Ffioedd' – diogelu a gwella mynediad at gyfiawnder

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 7 Mawrth 2023

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 30 Mai 2023







Ministry  
of Justice

## **Diwygio'r cynllun dileu ffioedd 'Help i Dalu Ffioedd' – diogelu a gwella mynediad at gyfiawnder**

**Ymgynghoriad wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael  
yn <https://consult.justice.gov.uk/>**

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

**At:** Anelir yr ymgynghoriad hwn at ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori a phawb sydd â diddordeb yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

**Hyd:** O 07/03/23 tan 30/05/23

Ymholiadau (9 Medi gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:

Fees Policy Team  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
London SW1H 9AJ

E-bost: [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)

**Sut i ymateb:**

Anfonwch eich ymateb erbyn 30/05/23 at:

Fees Policy Team  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
London SW1H 9AJ

E-bost: [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)

<b>Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn</b>	<b>4</b>
<b>Rhagair y Gweinidog</b>	<b>3</b>
<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>4</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>7</b>
Cefndir	7
Hyd a lled yr ymgynghoriad	8
Cyfnod Ymgynghori	9
<b>Pennod 1 – Adolygu'r cynllun Help i Dalu Ffioedd</b>	<b>10</b>
<b>Pennod 2 – Y cynllun Help i Dalu Ffioedd presennol</b>	<b>11</b>
Cymhwysedd: y prawf cyfalaf	12
Cymhwysedd: y prawf incwm	15
Dileu'r ffi yn rhannol	20
Y broses ymgeisio	22
<b>RHAN A Y CYNIGION: Meini prawf cymhwysedd Help i Dalu Ffioedd</b>	<b>23</b>
<b>Pennod 3 – Cynigion prawf incwm</b>	<b>25</b>
Cyflwyniad	25
Trothwyon incwm	25
Diystiriadau incwm	31
Budd-daliadau pasbortio	33
Diffiniad o incwm misol gros.	35
<b>Pennod 4 – Cynigion i ddileu ffioedd yn rhannol</b>	<b>38</b>
Cyflwyniad	38
Y cynnig	39
<b>Pennod 5 – Cynigion prawf cyfalaf</b>	<b>42</b>
Cyflwyniad	42
Diffiniad o gyfalaf gwario	43
Y trothwy cyfalaf is	44
Y system band trothwy cyfalaf	46
Y cap oedran	48

Diystyriadau cyfalaf	49
<b>RHAN B Y CYNIGION: Y broses ymgeisio</b>	<b>56</b>
<b>Pennod 6 – Y broses ymgeisio</b>	<b>57</b>
Cyflwyniad	57
Datganiad a Datganiad gwirionedd	57
Cwblhau ceisiadau	59
<b>RHAN C Y CYNIGION: Gweithredu</b>	<b>62</b>
Darpariaethau trosiannol	62
<b>Atodiad A: Siart llif y broses cymhwysedd ar gyfer Help i Dalu Ffioedd</b>	<b>63</b>
<b>Atodiad B: Datblygu'r trothwy incwm arfaethedig wedi'i ddiweddarau</b>	<b>64</b>
<b>Atodiad C: Diwygiadau arfaethedig i'r rhestr diystyriadau incwm</b>	<b>68</b>
<b>Holiadur</b>	<b>74</b>
<b>Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg</b>	<b>78</b>
Asesiad effaith	78
Cydraddoldeb	78
Y Gymraeg	78
<b>Amdanoch chi</b>	<b>80</b>
<b>Manylion cyswllt/Sut i ymateb</b>	<b>81</b>
Cwynion neu sylwadau	81
Copiâu ychwanegol	81
Cyhoeddi ymateb	81
Grwpiau cynrychioladol	81
Cyfrinachedd	82
<b>Egwyddorion ymgynghori</b>	<b>83</b>

## Rhagair y Gweinidog

Mae mynediad at gyfiawnder yn hanfodol er mwyn cynnal rheol y gyfraith. Rhaid i bawb, beth bynnag fo'u hamgylchiadau ariannol, allu defnyddio ein gwasanaeth llysoedd a thriwlysoedd o'r radd flaenaf mewn cyfnodau o angen.

Cyflwynwyd y cynllun Help i Dalu Ffioedd gan y Llywodraeth ym mis Hydref 2013 ac mae'n gwarchod mynediad at gyfiawnder drwy sybsideiddio cost ffioedd llysoedd a thriwlysoedd i unigolion ar incwm isel sydd heb fawr neu ddim cynilion. Heb y cynllun, byddai miloedd o bobl bob blwyddyn yn cael eu hatal rhag cael cyfiawnder dim ond am na allent fforddio talu ffi.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i helpu'r rhai sydd fwyaf mewn angen ac mae'r rôl hon yn arbennig o bwysig yn y tirlun economaidd presennol. Fel gwlad, rydym yn parhau i fynd i'r afael ag effeithiau parhaus pandemig COVID-19, tra'n ymdopi â'r heriau cymdeithasol ac economaidd sylweddol sydd yn ein wynebu. Mewn cyfnod o ansicrwydd a thralod o'r fath, rhaid i bobl allu mynnu eu hawl cyfansoddiadol i gael mynediad at gyfiawnder yn fwy nag erioed.

Felly, rydym yn cynnig ailddatgan ymrwymiad a dyletswydd yr Arglwydd Ganghellor i amddiffyn mynediad at gyfiawnder drwy ddiwygio'r cynllun Help i Dalu Ffioedd. Bydd ein cynigion yn gwneud y cynllun yn fwy hael, yn targedu cymorth ariannol y Llywodraeth at y rhai mwyaf anghenus ac yn darparu'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr.

Bydd y cynigion yn gwneud gwahaniaeth go iawn i unigolion agored i niwed sydd angen cynllun dileu ffioedd cadarn i gael mynediad at y llysoedd a'r triwlysoedd – boed hynny i arfer eu hawliau tai, i ddatrys anghydfodau teuluol, i gael iawndal am anafiadau personol neu i fynnu hawliau hanfodol eraill a warchodir gan ein llysoedd a'n triwlysoedd.

Rwy'n falch o'n cenhadaeth yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder i amddiffyn rheolaeth y gyfraith a sicrhau mynediad at gyfiawnder. Mae cynllun dileu ffioedd sy'n deg, yn dryloyw ac yn effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni'r amcan pwysig hwn. Gobeithio eich bod o'r farn bod ein cynigion yn gytbwys ac er budd pawb mewn cymdeithas.

Mike Freer AS

**Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol**

# Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwynwyd y cynllun Help i Dalu Ffioedd (HwF) ar 7 Hydref 2013.<sup>1</sup> Dyma'r unig system dileu ffioedd sy'n berthnasol ym mhob llys a thribiwnlys yng Nghymru a Lloegr.<sup>2</sup>
2. Mae'r cynllun HwF yn rhoi cymorth ariannol i unigolion ar incwm isel sydd heb fawr neu ddim cynilion, tuag at gost ffioedd y llys neu'r tribiwnlys. Ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwys, bydd ymgeiswyr naill ai'n gymwys i gael gostyngiad yn y ffi (dileu'r ffi'n rhannol) neu ddileu'r ffi'n llawn. Os nad yw unigolion yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer dileu ffioedd dan gynllun HwF, gall yr Arglwydd Ganghellor ddileu ffi'r llys neu'r tribiwnlys os oes amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau gwneud hynny.
3. Mae cynllun dileu ffioedd Goruchaf Lys y DU yn defnyddio'r un meini prawf cymhwysedd â chynllun HwF. Fodd bynnag, mae'r pŵer mewn amgylchiadau eithriadol yn arferadwy gan y Prif Weithredwr, sydd hefyd â'r pŵer i ddileu ffioedd mewn perthynas â cheisiadau am ganiatâd i ymyrryd mewn apeliadau a gyflwynir gan fudiadau elusennol neu fudiadau di-elw sy'n ceisio cyflwyno honiadau er budd y cyhoedd.
4. Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o gynllun HwF, rydym yn cynnig cyfres o ddiwygiadau i sicrhau system fwy hael, wedi'i thargedu'n well ac effeithlon. Yn benodol, rydym yn cynnig:
  - Diweddarau'r fethodoleg i osod trothwyon incwm newydd, Premiymau Plentyn a Phremiwm Cwpl
  - Diwygio'r diffiniad o 'incwm misol gros'
  - Diwygio'r rhestr o incwm sydd wedi'i eithrio o'r cyfrifiad o dan y cynllun, yn unol â'r fethodoleg trothwyon incwm wedi'u diweddarau

---

<sup>1</sup>Yn dilyn ymgynghoriad dyddiedig 18 Ebrill 2013 ac ymateb i'r ymgynghoriad dyddiedig 9 Medi 2013; gweler <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/fee-remissions-court-tribunals/>

<sup>2</sup>Mae cynllun HwF hefyd yn berthnasol i ffioedd a godir ar hyn o bryd gan dribiwnlysoedd sydd ag awdurdodaeth ledled y DU. Gweler paragraff 21isod am restr lawn o'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd y mae'r cynllun yn berthnasol iddynt. Sylwer, mae cynlluniau dileu ffioedd ar wahân ar waith ar gyfer ffioedd llys yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.



- Rhoi'r opsiwn i ymgeiswyr ddefnyddio enillion mis neu dri mis cyfartalog ar gyfer y prawf incwm
  - Adolygu'r dull o gyfrifo cymhwysedd ar gyfer dileu ffioedd yn rhannol
  - Diwygio'r diffiniad o 'gyfalaf gwario'
  - Cynyddu'r trothwy cyfalaf is
  - Symleiddio'r system band trothwy cyfalaf
  - Adolygu'r terfyn oedran trothwy cyfalaf
  - Diweddarau'r rhestr o gyfalaf sydd wedi'i eithrio o'r cyfrifiad o dan y cynllun
  - Cyflwyno 'terfyn amser' ar daliadau iawndal yn y rhestr o gyfalaf sydd wedi'i eithrio o'r cynllun
  - Diwygio'r datganiad a'r datganiad gwirionedd i ganiatáu i gyfeillion cyfreitha a chynrychiolwyr cyfreithiol lenwi a llofnodi'r cais HwF ar ran ymgeiswyr
  - Ychwanegu darpariaeth i ddelio â cheisiadau HwF anghyflawn
5. Mae'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr; awdurdodaeth bresennol tribiwnlysoedd sydd heb eu datganoli yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon; a Phanel Cydnabod Rhyw y DU gyfan. Mae Goruchaf Lys y DU yn gweithredu ei gynllun dileu ffioedd ei hun. Fodd bynnag, mae'n cyd-fynd â'r cynllun HwF yn ei feini prawf cymhwysedd. O'r herwydd, er mwyn cynnal cysondeb rhwng y ddau gynllun, rydym yn bwriadu diweddarau cynllun dileu ffioedd Goruchaf Lys y DU gyda newidiadau perthnasol i gynllun HwF yn ôl yr angen.
6. Mae darpariaethau perthnasol ynghylch y cynllun HwF wedi'u cynnwys yn yr Offerynnau Statudol canlynol ('Gorchmynion Ffioedd'), a fydd yn gofyn am ddiwygiadau os bydd ein cynigion yn cael eu rhoi ar waith:
- Gorchmyn Ffioedd Profiant Digynnen 2004
  - Gorchmyn Cydnabod Rhyw (Ffioedd Cais) 2006
  - Gorchmyn Ffioedd Y Llys Gwarchod 2007
  - Gorchmyn Ffioedd Achosion Sifil 2008
  - Gorchmyn Ffioedd Achosion Teulu 2008

- Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008
- Gorchymyn Ffioedd y Goruchel Lys 2009
- Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) 2009
- Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hapchwarae) 2010
- Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambwr Mewnfudo a Lloches) 2011.
- Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Mewnfudo a Lloches) (Adolygiad Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2011
- Gorchymyn Ffioedd Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambwr Eiddo) 2013
- Gorchymyn Dileu Ffioedd y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd 2013

# Cyflwyniad

## Cefndir

7. Mae ein llysoedd a'n thriwlynlysoedd yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol. Pan fyddant yn penderfynu ar anghydfodau a materion cyfreithiol, mae eu penderfyniadau nid yn unig o fudd i'r partïon sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ond hefyd i'r cyhoedd yn gyffredinol. Er y gall achos gael ei ddwyn gan unigolyn, bydd penderfyniad y llys neu'r thriwlynlys yn sefydlu a/neu'n egluro rheolau ac egwyddorion yn y maes cyfreithiol perthnasol. Ar y naill law, mae hyn yn sicrhau bod unigolion a busnesau yn gwybod y byddant yn gallu mynnu eu hawliau os bydd angen iddynt wneud hynny. Ar y llaw arall, byddant hefyd yn gwybod os na fyddant yn cyflawni eu rhwymedigaethau, ei bod yn debygol y bydd datrysiad y gallant ei gael. Fel hyn, mae cyfiawnder drwy'r system llysoedd a thriwlynlysoedd o werth ac o ddiddordeb i bawb.
8. Dyletswydd yr Arglwydd Ganghellor yw gwarchod yr hawl cyfansoddiadol i gael mynediad at gyfiawnder. Elfen allweddol o'r ddyletswydd yw sicrhau nad yw pobl yn cael eu hatal rhag troi at ein llysoedd neu'n thriwlynlysoedd am gymorth dim ond am nad ydynt yn gallu fforddio talu'r ffi. Rhaid i bob unigolyn, beth bynnag fo'u hamgylchiadau ariannol, allu defnyddio system y llysoedd a'r thriwlynlysoedd pan fo angen.
9. Gyda'r ddyletswydd hanfodol hon mewn golwg, cyflwynwyd cynllun HwF ar 7 Hydref 2013.<sup>3</sup> Mae'r cynllun yn cefnogi dyletswydd yr Arglwydd Ganghellor i amddiffyn mynediad at gyfiawnder drwy ddarparu cymorth ariannol tuag at gost ffioedd llysoedd a thriwlynlysoedd i unigolion nad oes ganddynt lawer o fodd ariannol.
10. Mae dau brawf sy'n pennu cymhwysedd ymgeisydd i gael esemptiad rhag talu ffioedd drwy'r cynllun HwF: y prawf cyfalaf a'r prawf incwm. Gyda'i gilydd, maent yn asesu amgylchiadau'r ymgeisydd – megis lefel incwm yr aelwyd, cynilion eu cartref, os ydynt yn byw gyda phartner neu os oes ganddynt blant dibynnol, p'un a ydynt yn derbyn budd-daliadau penodol a maint eu ffi llys neu driwlynlys. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn eu ceisiadau naill ai'n cael dileu'r ffi'n llawn neu'n

---

<sup>3</sup>Sefydlwyd y cynllun gan Orchymyn Dileu Ffioedd y Llysoedd a Thriwlynlysoedd 2013 (OS 2013/2302)), a ddiwygiwyd yn ddiweddarach gan Orchymyn Ffioedd Llysoedd a Thriwlynlysoedd (Diwygiadau Amrywiol) 2014 (OS 2014/590) a Gorchymyn Ffioedd y Llysoedd (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (OS 2021/985).

rhannol. Mae Pennod 2 yr ymgynghoriad hwn yn rhoi manylion llawn am sut mae'r cynllun yn gweithredu.

11. Heb gynllun HwF, byddai llawer o unigolion agored i niwed bob blwyddyn yn ei chael hi'n anodd cael cyfiawnder drwy ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd. Yn ystod y flwyddyn 2021/22 yn unig, llwyddodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i ddileu ffioedd yn rhannol neu'n llawn i 122,517 o geisiadau. Roedd hyn yn cyfateb i £81 miliwn o ostyngiad mewn ffioedd, sef 11% o gyfanswm gwerth y ffioedd a godwyd eleni (£736 miliwn). O ystyried rôl hollbwysig y cynllun o ran diogelu mynediad at gyfiawnder, mae'n hanfodol ei fod yn parhau i dargedu a chefnogi unigolion sydd fwyaf angen cymorth yn gywir.
12. Felly, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnig cyfres o ddiwygiadau i wneud cynllun HwF yn fwy hael a thargedu cymorth ariannol at y rheini sydd fwyaf mewn angen, gan ddarparu gwerth am arian i'r trethdalwr ar yr un pryd. Gan adeiladu ar y diweddariad blaenorol i'r cynllun ar 30 Medi 2021,4 y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yw canlyniad adolygiad cynhwysfawr a oedd yn archwilio pob agwedd ar strwythur HwF. Wrth i'r wlad barhau i ddod ati ei hun ar ôl COVID-19 ac wynebu heriau economaidd sylweddol, mae ein diwygiadau arfaethedig yn hanfodol i gefnogi unigolion agored i niwed sydd fwyaf mewn perygl o beidio â chael mynediad at gyfiawnder.

## Hyd a lled yr ymgynghoriad

13. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
  - a. Mae Pennod 1 yn crynhoi'r cynllun HwF ar ei ffurf bresennol.
  - b. Mae Pennod 2 yn rhoi manylion ein hadolygiad o gynllun HwF, ac mae'r canlyniad yn sail i'n cynigion.
  - c. Mae penodau 3 i 6 yn dod o dan Ran A ein cynigion, sy'n ymwneud â'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun HwF.
    - Mae Pennod 3 yn rhoi manylion am gynigion i ddiwygio'r prawf incwm.
    - Mae Pennod 4 yn nodi cynigion i ddiwygio'r polisi dileu ffioedd yn rhannol.
    - Mae Pennod 5 yn rhoi manylion am gynigion i ddiwygio'r prawf cyfalaf.

---

<sup>4</sup>Pan gymhwyswyd codiadau chwyddiant i'r trothwyon incwm misol gros (wedi'u hól-ddyddio i 2016).

- d. Mae Pennod 6 yn dod o dan Ran B ein cynigion. Mae'n rhoi manylion y cynigion i ddiwygio'r broses ymgeisio er mwyn ei gwneud yn symlach ac yn gliriach i ymgeiswyr a GLITEM.
- e. Mae Rhan C yn nodi ein cynigion mewn perthynas â gweithredu'r newidiadau arfaethedig a'r darpariaethau trosiannol.

## **Cyfnod Ymgynghori**

- 14. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar y cynigion i ddiwygio'r cynllun HwF. Mae'r ymgynghoriad yn para am gyfnod o 12 wythnos ac yn dod i ben ar 30 Mai 2023.

## Pennod 1 – Adolygu'r cynllun Help i Dalu Ffioedd

15. Cyflwynwyd y cynllun Help i Dalu Ffioedd (HwF) ym mis Hydref 2013. Ar wahân i fân ddiwygiad yn 2014 i'r diffiniad o fuddion wedi'u heithrio a diweddariad ym mis Medi 2021 pan gynyddwyd y trothwyon incwm yn unol â chwyddiant (wedi'i ôl-ddyddio i 2016), nid yw'r cynllun HwF wedi bod yn destun newidiadau eraill.
16. Arweiniwyd yr adolygiad o gynllun HwF gan dri phrif amcan:
  - a) *Sicrhau mynediad at gyfiawnder i unigolion ar incwm isel heb fawr ddim cynilion, os o gwbl:* Mae'n hanfodol bod y cynllun yn parhau i gefnogi unigolion na fyddent fel arall yn gallu cael mynediad i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau, rhaid i'r trothwyon a'r rheolau barhau i gael eu targedu'n dda fel nad yw'r unigolion sydd fwyaf mewn angen yn syrthio drwy'r bwlch ymhen amser.
  - b) *Darparu gwell gwerth am arian yn gyffredinol i'r trethdalwr:* Gan fod cynllun HwF yn rhan o'r system gyfiawnder, y trethdalwr sy'n talu'r gost o roi esemptiad rhag talu ffioedd i unigolion. Fel y nodwyd uchod, roedd cyfanswm y ffioedd a gafodd eu dileu yn £81 miliwn yn 2021/22. Rhaid i'r cynllun felly barhau i ddarparu gwerth am arian y trethdalwyr. O ran cymhwysedd, mae hyn yn golygu y dylai unigolion sydd â digon o fodd ariannol i dalu eu ffi gael eu hidlo allan. Ar lefel weithredol, dylai'r cynllun weithredu mor effeithlon â phosibl i osgoi costau diangen.
  - c) *Bod â system syml i ymgeiswyr ei deall ac i GLITEM ei gweinyddu:* Dylai rheolau'r cynllun fod yn hawdd i ymgeiswyr eu deall ac i'w cymhwyso iddynt eu hunain i ganfod a ydynt yn gymwys i gael dileu ffioedd, ac i ba raddau. Dylai'r cynllun a'i reolau fod yn syml hefyd i GLITEM eu cymhwyso.
17. Gan ganolbwyntio ar y tri amcan hyn, buom yn archwilio pob agwedd ar gynllun HwF, o'r meini prawf cymhwysedd i weithrediad y broses ymgeisio. Y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yw canlyniad ein hadolygiad ac maent yn ceisio cyflawni:
  - a) Cynllun mwy hael sy'n rhoi mwy o help i unigolion heb lawer o fodd ariannol.
  - b) Cynllun wedi'i dargedu'n well sy'n darparu cymorth ariannol i unigolion sydd ei angen fwyaf.
  - c) Cynllun sy'n darparu'r gwerth gorau am arian trethdalwyr.

## Pennod 2 – Y cynllun Help i Dalu Ffioedd presennol

### Cyflwyniad

18. Mae'r bennod hon yn crynhoi sut mae'r cynllun Help i Dalu Ffioedd (HwF) presennol yn gweithio. Mae siart llif trosolwg o broses gymhwyso HwF ar gael yn **Atodiad A**.
19. Er mwyn i ymgeisydd fod yn gymwys i gael cymorth ariannol drwy'r cynllun HwF, rhaid iddynt basio dau brawf – y prawf cyfalaf a'r prawf incwm. Mae'r prawf cyfalaf yn asesu cyfalaf gwario cartref y ceisydd. Ar yr amod eu bod yn pasio'r prawf hwnnw, caiff yr ymgeisydd wedyn ei asesu ar sail incwm misol gros eu cartref (y prawf incwm). Mae'r ail brawf hwn yn pennu a yw ymgeisydd yn gymwys i gael esemptiad rhag talu ffioedd ac, os felly, lefel y gostyngiad y byddant yn ei gael. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus naill ai'n gymwys i gael dileu'r ffi'n rhannol (sy'n golygu eu bod yn talu llai o ffi) neu ddileu'r ffi'n llawn (sy'n golygu nad ydynt yn talu dim o gwbl).
20. Dim ond i unigolion y mae'r cynllun HwF ar gael. Fel y nodir ym mharagraff 3uchod, gall y rhai nad ydynt yn gymwys dan gynllun HwF wneud cais i ddileu ffioedd o dan bŵer eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd.
21. Mae'r cynllun HwF yn berthnasol i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd a ganlyn:
  - Y Llys Sirol (Cymru a Lloegr)
  - Llysoedd Ynadon (Cymru a Lloegr)
  - Gwasanaeth profiant (Cymru a Lloegr)
  - Yr Uchel Lys (Cymru a Lloegr)
  - Y Llys Apêl (Cymru a Lloegr)
  - Apeliadau Hapchwarae (Cymru, Lloegr a'r Alban)
  - Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambwr Eiddo Preswyl) (Lloegr)
  - Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambwr Mewnfudo a Lloches) (y Deyrnas Unedig)

- Y Llys Gwarchod (Cymru a Lloegr)
- Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) (Cymru a Lloegr)
- Yr Uwch Dribiwnlys (Siambwr Mewnfudo a Lloches) (Y Deyrnas Unedig)
- Panel Cydnabod Rhyw (Y Deyrnas Unedig)

## Cymhwysedd: y prawf cyfalaf

22. Y cam cyntaf o ran penderfynu a ydych yn gymwys i gael esemptiad rhag talu ffioedd o dan gynllun HwF yw'r prawf cyfalaf. Mae'r prawf hwn yn asesu 'cyfalaf gwario' aelwyd ymgeisydd yn erbyn trothwyon penodol. Os oes gan ymgeisydd bartner,<sup>5</sup> ystyrir eu cyfalaf ar y cyd oni bai ei fod yn achos lle mae budd i'r gwrthwyneb – er enghraifft mewn achos ysgariad rhwng y ceisydd a'i bartner.
23. Os yw cyfalaf gwario aelwyd y ceisydd yn uwch na'r trothwy sy'n gymwys iddynt, nid ydynt yn pasio'r prawf cyfalaf ac ni fyddant yn gymwys i gael dileu'r ffi. Os ydynt o fewn y trothwy, byddant yn symud ymlaen i'r prawf incwm.
24. Mae 'cyfalaf gwario' yn y cynllun HwF ar hyn o bryd yn golygu gwerth pob adnodd o natur gyfalaf sy'n eiddo i'r ymgeisydd ar y dyddiad y gwneir y cais. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill:
  - arian mewn ISAs ac unrhyw gyfrif cynilo arall
  - cyfrifon cynilo ar y cyd
  - bondiau cyfradd sefydlog neu fondiau buddsoddi
  - unrhyw gyfandaliad (er enghraifft, taliad dileu swydd)
  - stociau a chyfranddaliadau
  - cronfeydd ymddiriedolaeth (neu unrhyw fath arall o gronfa)

---

<sup>5</sup>Mae partner yn "berson y mae'r parti'n byw gydag ef/hi fel cwpl ac mae'n cynnwys person nad yw'r parti'n byw gydag ef/hi ar hyn o bryd ond nad yw'r parti'n byw ar wahân iddynt". Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n briod, yn bartneriaid sifil, neu sy'n cyd-fyw fel pe baent yn briod neu'n bartneriaid sifil, gyda neu heb blant dibynnol, yn yr un cyfeiriad ac yn dibynnu ar eu hincwm ar y cyd ar gyfer costau'r cartref. Os nad yw'r cwpl yn cyd-fyw, rhaid cynnwys partner yr ymgeisydd er hynny ar gyfer asesiad HwF os nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad oherwydd grym amgylchiad (er enghraifft: oherwydd bod y partner yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, yn y carchar neu'n byw mewn cartref gofal preswyl).



- gwerth ail gartrefi
- unrhyw arian neu eiddo y tu allan i'r DU

## Diystyriadau cyfalaf

25. Mae rhai mathau o gyfalaf sydd wedi'u heithrio o'r categori cyfalaf gwario, sy'n golygu nad ydynt yn cyfrif tuag at gyfalaf ymgeisydd at ddibenion y cynllun HwF. Cyfeirir at yr eithriadau hyn fel 'diystyriadau cyfalaf' ac maent fel a ganlyn ar hyn o bryd:

- Eiddo sy'n brif annedd neu'n unig annedd a feddiannir gan y ceisydd
- Dodrefn tŷ ac eiddo personol prif gartref yr ymgeisydd neu'r unig gartref
- Eitemau o ddillad personol
- Gwerth unrhyw gerbyd a fyddai'n gadael y ceisydd neu ei bartner heb gludiant modur pe bai'n cael ei werthu
- Offer a chyfarpar masnach, gan gynnwys cerbydau a ddefnyddir at ddibenion busnes
- Gwerth cyfalaf busnes y ceisydd neu fusnes ei bartner (lle mae'r ceisydd neu ei bartner yn hunangyflogedig)
- Unrhyw gyfalaf a ddelir mewn cronfeydd ymddiriedolaeth na all y ceisydd gael mynediad iddo
- Cyfalaf a ddelir mewn busnes sy'n eiddo i weithwyr pan fo'r cwmni'n dal cyfranddaliadau'r ymgeisydd yn gyfunol (e.e. ymddiriedolaeth gweithwyr)
- Bonws dychwelyd i'r gwaith ceisiwr gwaith
- Taliadau diswyddo annheg
- Dyfarniadau esgeulustod meddygol neu anaf personol
- Gwerth arian parod unrhyw gynllun pensiwn personol neu alwedigaethol
- Gwerth arian parod unrhyw gontractau yswiriant (e.e. yswiriant bywyd)
- Unrhyw daliad cyfalaf a wneir o'r Cronfeydd Byw'n Annibynnol
- Unrhyw daliad profedigaeth

- Unrhyw yswiriant cyfalaf neu gyfandaliadau gwaddol a dderbyniwyd yn achos salwch, anabledd neu farwolaeth
- Unrhyw fenthyciad myfyriwr neu grant myfyriwr
- Arian o'r cynllun iawndal am anafiadau troseddol

26. Ar ôl i'r ceisydd ystyried yr holl adnoddau sy'n gymwys fel cyfalaf gwario ac wedi eithrio'r rhai sydd i'w diystyru, asesir y cyfanswm yn erbyn y trothwy cyfalaf.

## Trothwyon cyfalaf

27. Ar hyn o bryd, os yw ceisydd neu ei bartner yn 61 oed neu'n hŷn ar ddyddiad gwneud cais HwF, byddant yn pasio'r prawf cyfalaf os yw eu cyfalaf gwario o dan £16,000. Yr enw ar hyn yw'r 'cap oedran', sef trothwy cyfalaf safonol sy'n berthnasol i'r grŵp oedran hwn, beth bynnag fo swm y ffi.
28. Pan fo ceisydd a'i bartner (os yn gymwys) o dan 61 oed ar ddyddiad gwneud cais HwF, mae'r trothwy cyfalaf yn amrywio yn ôl maint y ffi. Gan ddechrau ar drothwy cyfalaf is o £3,000 ac yn codi i uchafswm o £16,000, mae deg band trothwy cyfalaf fel a ganlyn:

<b>Ffi'r llys neu'r tribiwnlys yw:</b>	<b>Rhaid i gyfalaf yr ymgeisydd fod yn llai na:</b>
Hyd at £1,000	£3,000
Rhwng £1,001 – £1,335	£4,000
Rhwng £1,336 – £1,665	£5,000
Rhwng £1,666 – £2,000	£6,000
Rhwng £2,001 – £2,330	£7,000
Rhwng £2,331 – £4,000	£8,000
Rhwng £4,001 – £5,000	£10,000
Rhwng £5,001 – £6,000	£12,000
Rhwng £6,001 – £7,000	£14,000
£7,001 neu fwy	£16,000

29. Bydd ymgeiswyr sy'n pasio'r prawf cyfalaf fel y nodir uchod yn symud ymlaen i'r prawf incwm.

## Trothwy cyfalaf: enghreifftiau ymarferol

### Enghraifft 1

Mae Abdul yn sengl ac yn 64 oed. Mae ganddo gyfalaf gwario o £10,000. Gan fod hyn o dan y trothwy cyfalaf safonol o £16,000, **mae'n pasio'r prawf cyfalaf a gall fod yn gymwys** i gael dileu'r ffi yn dibynnu ar lefel ei incwm. Mae gwerth y ffi sy'n daladwy yn amherthnasol yn yr achos hwn oherwydd y terfyn oedran.

### Enghraifft 2

Mae Anna yn 30 oed ac yn sengl. Mae ganddi gyfalaf gwario o £4,000 a'r ffi sy'n daladwy yw £232. Gan fod ei chyfalaf dros y trothwy cyfalaf o £3,000 sy'n berthnasol iddi, **ni fydd yn gymwys** i gael dileu'r ffi.

### Enghraifft 3

Mae Antonio yn 40 oed ac yn sengl. Mae ganddo gyfalaf gwario o £8,000 a'r ffi sy'n daladwy yw £5,000. Gan fod ei gyfalaf o dan y trothwy cyfalaf o £10,000 sy'n gymwys iddo ef, mae'n pasio'r prawf cyfalaf a gall fod yn gymwys i gael dileu'r ffi yn dibynnu ar lefel ei incwm.

## Cymhwysedd: y prawf incwm

30. Unwaith y bydd ymgeisydd yn pasio'r prawf cyfalaf, bydd yn symud ymlaen i ail gam proses gymhwysedd HwF: y prawf incwm. Asesiad yw hwn o incwm gros cartref yr ymgeisydd yn y mis cyn y cais.<sup>6</sup> Yn yr un modd â'r prawf cyfalaf, os oes gan ymgeisydd bartner, bydd eu hincwm yn cael ei ystyried hefyd.
31. Mae'r prawf incwm yn rhan greiddiol o gynllun HwF. Os yw ymgeisydd yn gymwys i gael esemptiad rhag talu ffioedd, mae'r prawf hwn yn pennu lefel y cymorth ariannol y byddant yn ei gael. Fel trosolwg, ac fel y dangosir yn y siart llif yn **Atodiad A**, mae tri phrif lwybr y gall ymgeisydd eu dilyn i gael dileu'r ffi yn rhannol neu'n llawn:
  - **Llwybr 1:** Os yw ymgeisydd yn derbyn budd-dal prawf modd sy'n cael ei ystyried yn 'fudd-dal cymwys' at ddibenion cynllun HwF (mae'r manylion llawn isod ym mharagraffau 3232 i 3334), maent yn pasio'r prawf incwm yn awtomatig ac maent yn gymwys i gael dileu'r ffi'n llawn.

<sup>6</sup>Cyn didyniadau ar gyfer Yswiriant Gwladol a threth.

- **Llwybr 2:** Os **nad** yw ymgeisydd yn derbyn budd-dal cymwys sy'n seiliedig ar brawf modd ond bod incwm misol gros eu cartref yn **is** na'r trothwy incwm (mae'r manylion llawn ym mharagraff ), byddant yn cael eu dileu'r ffi yn llawn.
- **Llwybr 3:** Os **nad** yw ymgeisydd yn cael 'budd-dal cymwys' sy'n seiliedig ar brawf modd a bod incwm misol gros eu cartref **dros** y trothwy incwm, mae'n bosibl y byddant yn dal i fod yn gymwys i gael gostyngiad rhannol. Bydd yr ymgeisydd yn cael gostyngiad rhannol yn y ffi os yw incwm misol gros ei aelwyd yn **is** na'r terfyn incwm misol gros uchaf a bennir gan y cynllun (mae'r manylion llawn i'w gweld ym mharagraffau 00 i 4444).

## **Budd-daliadau cymwys sy'n seiliedig ar brawf modd a 'pasbortio'**

32. Fel man cychwyn, ystyrir bod ymgeiswyr sydd wedi pasio'r prawf cyfalaf ac sy'n derbyn budd-daliadau 'cymwys' penodol sy'n seiliedig ar brawf modd yn disgyn yn awtomatig o dan drothwyon incwm HwF ac ni fydd yn rhaid iddynt dalu dim tuag at eu ffi. Cyfeirir at y llwybr hwn fel 'pasbortio'.
33. Dyma'r budd-daliadau cymwys sydd ar hyn o bryd yn rhoi pasbort i ymgeiswyr drwy'r prawf incwm:
  - Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm
  - Cymhorthdal Incwm
  - Credyd Pensiwn (Credyd Gwarant)
  - Credyd Cynhwysol gydag enillion ychwanegol o lai na £6,000 (gros blynyddol)
34. Rhaid i ymgeiswyr sy'n pasio'r prawf cyfalaf ond nad ydynt yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau cymwys uchod basio'r prawf incwm misol gros er mwyn bod yn gymwys i gael gostyngiad yn y ffi.

## Prawf incwm – pasbortio: enghreifftiau ymarferol

### Enghraifft 1

Mae Bria yn sengl heb blant ac mae wedi pasio'r prawf cyfalaf. Mae'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm. **Mae'n cael ei phasbortio drwy'r cynllun HwF ac mae'n gymwys i gael dileu'r ffi'n llawn.**

### Enghraifft 2

Mae Bidev yn byw gyda phartner ac un plentyn ac mae wedi pasio'r prawf cyfalaf. Mae'n derbyn Credyd Cynhwysol ond mae ei enillion ychwanegol net yn £600 y mis. **Nid yw'n cael ei pasbortio drwy gynllun HwF** gan fod ei enillion ychwanegol **yn uwch** na'r terfyn o £500 y mis. Rhaid iddo fynd ymlaen i gael asesiad incwm llawn yn erbyn y trothwyon a'r capiau incwm (manyllion llawn isod ym mharagraffau 35 i 38), a fydd yn penderfynu a yw'n gymwys i gael dileu'r ffi, ac os felly, i ba raddau.

## Trothwyon incwm misol gros

35. Mae cynllun HwF yn pennu trothwy incwm misol gros ar gyfer pob aelwyd. Bydd ymgeiswyr y mae eu hincwm misol yn hafal â neu'n is na'r trothwy sy'n berthnasol iddynt yn cael dileu'r ffi yn llawn. Wrth i incwm aelwyd godi'n uwch na'r trothwy, bydd lefel y gostyngiad a gânt yn lleihau'n raddol hyd nes na fyddant yn gymwys i gael unrhyw ostyngiad yn y ffi a rhaid iddynt dalu cost lawn y ffi eu hunain.
36. 'Incwm misol gros' yw cyfanswm yr incwm a dderbynnir gan geisydd a'i bartner (lle bo hynny'n berthnasol) o bob ffynhonnell yn y mis calendr cyn ei gais am HwF. Pan fo ceisydd neu ei bartner yn hunangyflogedig, cyfrifir incwm o gyfran y person o'r elw net o'r cyfnod cyfrifyddu diwethaf neu'r arian neu'r nwyddau y maent wedi'u cymryd o'r busnes dros y cyfnod sy'n cael ei ystyried.
37. Mae trothwyon incwm y ceiswyr yn cael eu haddasu ar gyfer cyfansoddiad eu cartrefi. Mae trothwy uwch ar gael i geiswyr sydd â phartner (a elwir yn 'Bremiwm Cwpl'). Mae'r trothwy hefyd yn cyfrif am unrhyw blant sy'n ariannol ddibynnol, lle bydd lwfans safonol (a elwir yn 'Bremiwm Plentyn') yn berthnasol i bob plentyn dibynnol ac yn cynyddu cyfanswm trothwy'r ceisydd.
38. Yn dilyn codiadau chwyddiant a oedd yn berthnasol i drothwyon incwm HwF ar 30 Medi 2021, mae'r trothwyon incwm misol gros cyfredol fel a ganlyn:

## Trothwyon Incwm Misol Gros

	<b>Ceisydd sengl</b>	<b>Ceisydd gyda phartner (+ Premiwm Cwpl o £175)</b>
Trothwy incwm heb blant:	£1,170	£1,345
<b>Rhoddir lwfans o £265 ar gyfer pob plentyn sy'n ariannol ddibynnol (Premiwm Plentyn)</b>		
Trothwy incwm gydag 1 plentyn	£1,435	£1,610
Trothwy incwm gyda 2 blentyn	£1,700	£1,875

## Diystyriadau incwm

39. Yn yr un modd â diystyriadau cyfalaf, mae rhai budd-daliadau (ar wahân i fudd-daliadau cymwys) a mathau o incwm sydd wedi'u heithrio o'r asesiad incwm misol gros. Cyfeirir at y rhain fel 'diystyriadau incwm' ac maent fel a ganlyn ar hyn o bryd:

<b>Diystyriadau incwm Budd-daliadau a mathau o incwm sydd wedi'u heithrio o'r prawf incwm misol gros</b>	
Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (AFIP)	Taliadau'r Gronfa Byw'n Annibynnol
Cymorth ariannol o dan gytundeb ar gyfer gofal maeth plentyn	Taliad Tywydd Oer a Lwfans Gweini Cyson
Lwfans Gweini	Elfen gallu cyfyngedig i weithio y Credyd Cynhwysol
Taliad Angladd	Taliadau uniongyrchol a wneir dan y Benthyciad Cyllidebu Cymunedol
Bonws Dychwelyd i'r Gwaith Lwfans Profedigaeth	Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)
Budd-dal Tai	Taliadau uniongyrchol a wneir dan Gofal Cymunedol, Gwasanaethau i Ofalwyr a Gwasanaethau Plant
Blaendaliadau Cyllidebu a delir o dan y Credyd Cynhwysol	Pensiwn a delir dan Orchymyn Pensiwn Gwasanaeth y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr etc (Anabledd a Marwolaeth) 2006
Elfen Credyd Tai y Credyd Pensiwn	Lwfans Byw I'r Anabl (DLA)
Lwfans Gofalwr	Lwfans Anabledd Difrifol

Elfen Tai y Credyd Cynhwysol	Elfennau Anabledd ac Anabledd Difrifol y Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Cynhwysol
Elfen Gofalwr y Credyd Cynhwysol	Blaendaliadau Budd-daliadau Tymor Byr (STBA) a Blaendaliadau Credyd Cynhwysol
Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol	Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol
Elfen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith Elfen Gofal Plant y Credyd Cynhwysol	Lwfans Rhiant Gweddw

40. Ar ôl diystyru unrhyw incwm neu fudd-daliadau perthnasol fel y nodir uchod, os yw incwm gros cartref y ceisydd **yn hafal â neu'n is** na'r trothwy perthnasol sy'n gymwys iddynt, byddant yn gymwys i gael dileu'r ffi'n llawn.
41. Fel arall, os yw eu hincwm yn **uwch** na'r trothwy, bydd angen asesiad pellach i benderfynu a ydynt yn gymwys i gael gostyngiad rhannol yn y ffi.

## Prawf incwm – trothwyon incwm a diystyriadau incwm: enghreifftiau ymarferol

### Enghraifft un

Mae Mike yn byw gyda'i bartner a'i blentyn 10 oed. Ar ôl pasio'r prawf cyfalaf, y trothwy incwm misol gros sy'n berthnasol iddo yw £1,610 (£1,345 + £265).

Gan ddiystyru Taliad Annibyniaeth Bersonol o £200, incwm cartref gros Mike yn y mis cyn gwneud cais yw £1,600. **Mae'n pasio'r prawf incwm ac mae'n gymwys i gael dileu'r ffi'n llawn.**

### Enghraifft dau

Mae Miriam yn sengl gyda phlentyn 12 oed. Ar ôl pasio'r prawf cyfalaf, y trothwy incwm misol gros sy'n berthnasol iddi yw £1,435 (£1,170 + £265).

Nid oes unrhyw ddiystyriadau incwm sy'n berthnasol i Miriam. Incwm gros ei haelwyd yn y mis cyn gwneud cais yw £3,000. **Nid yw'n gymwys i gael dileu'r ffi'n llawn a rhaid iddi fwrw ymlaen ag asesiad pellach, fydd yn pennu a fydd yn gymwys i gael dileu'r ffi'n rhannol.**

## Dileu'r ffi yn rhannol

42. Mae'n bosibl y bydd ceiswyr y mae eu hincwm misol gros yn uwch na'r trothwy perthnasol ar gyfer eu hamgylchiadau yn dal i gael rhywfaint o help gyda'u ffioedd drwy ddileu ffi'n rhannol. Pennir hyn drwy asesu lefel incwm y ceisydd yn erbyn y 'cap incwm misol gros' (h.y. yr uchafswm a ganiateir ar gyfer incwm misol gros).
43. Yn yr un modd â throthwyon incwm, pennir y cap incwm misol gros hefyd yn ddibynnol ar gyfansoddiad aelwyd y ceisydd – gan gyfrif Premiwm Cwpl os oes gan y ceisydd bartner a/neu Bremiwm Plentyn ar gyfer unrhyw blant sy'n ariannol ddibynnol. Mae'r cap incwm cyfredol fel a ganlyn:

### Cap Incwm Misol Gros

	Ceisydd sengl	Ceisydd gyda phartner
Cap incwm misol heb blant	£5,170	£5,345
<b>Rhoddir lwfans o £265 ar gyfer pob plentyn sy'n ariannol ddibynnol</b>		
Cap incwm misol gydag 1 plentyn	£5,435	£5,610
Cap incwm misol gyda 2 blentyn	£5,700	£5,875

44. Os yw incwm gros misol ceisydd **yn fwy** na'r cap incwm sy'n berthnasol i'w amgylchiadau, ni fyddant yn derbyn unrhyw gymorth ariannol drwy'r cynllun HwF.
45. Os yw incwm misol gros ceisydd yn **uwch na'r trothwy incwm** ond **yn is na'r cap incwm misol** sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau, pennir lefel dileu ffioedd yn rhannol ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r 'rheol 50%'. Am bob £10 y mae'r ceisydd yn ei dderbyn dros y trothwy incwm, bydd gofyn iddo gyfrannu £5 tuag at y ffi (hyd at uchafswm o £2,000).



## **Prawf incwm – dileu'r ffi'n rhannol: enghreifftiau ymarferol**

### **Enghraifft un**

Mae Scott yn sengl gyda phlentyn 11 oed. Y ffi sy'n daladwy yw £5,000 ac mae wedi pasio'r prawf cyfalaf.

Y trothwy incwm misol gros sy'n berthnasol iddo yw £1,435.

Y cap incwm misol gros sy'n berthnasol iddo yw £5,435.

Incwm misol gros Scott yn y mis cyn gwneud cais yw £5,000. Gan fod hyn yn **uwch** na'r trothwy incwm ond yn **is** na'r cap, **bydd yn gymwys i gael gostyngiad rhannol yn y ffi.**

Gan ddefnyddio'r rheol 50% a thalgrynnu i lawr i'r £5 agosaf, mae ei incwm yn £3,565 **uwchben** y trothwy incwm. Bydd angen iddo dalu 50% o hyn tuag at y ffi: £1,780. Nid yw'r £3,220 sy'n weddill yn daladwy.

### **Enghraifft dau**

Mae Sulekha yn byw gyda phartner a'u plentyn 13 oed. Y ffi sy'n daladwy yw £1,000 ac mae wedi pasio'r prawf cyfalaf.

Y trothwy incwm misol gros sy'n berthnasol iddi yw £1,610. Y cap incwm misol gros sy'n berthnasol iddi yw £5,610.

Incwm misol gros Sulekha yn y mis cyn gwneud cais yw £6,000. Gan fod hyn yn **uwch** na'r trothwy incwm a'r cap, **ni fydd yn gymwys i gael gostyngiad rhannol yn y ffi.**

### **Enghraifft tri**

Mae Selen yn sengl a heb blant. Y ffi sy'n daladwy yw £1,000.

Y trothwy incwm misol gros sy'n berthnasol iddi yw £1,170.

Y cap incwm misol gros sy'n berthnasol iddi yw £5,170.

Mae incwm misol gros Selen yn y mis cyn gwneud cais yn £4,000 h.y. yn **uwch** na'r trothwy incwm ond yn **is** na'r cap.

Gan ddefnyddio'r rheol 50%, mae ei hincwm yn £2,830 uwchben y trothwy incwm. Byddai 50% o hyn yn daladwy tuag at ffi: £1,415.

Fodd bynnag, mae'r ffi dan sylw yn llai na £1,415 (ffi o £1,000). O'r herwydd, **ni fydd Selen yn gymwys i gael gostyngiad ar yr achlysur hwn a bydd yn rhaid iddi dalu'r ffi lawn.**

## Y broses ymgeisio

46. Ac eithrio dileu ffioedd sy'n ymwneud â'r Llys Gwarchod ac ar gyfer apeliadau cwmnïau i awdurdodaeth Hapchwarae y Tribiwnlys Haen Gyntaf (y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) sydd â ffurflenni a chanllawiau penodol, gellir gwneud cais i ddileu'r ffi drwy'r cynllun HwF drwy ffurflen ar-lein ar wefan gov.uk neu drwy ddefnyddio ffurflen gais papur EX160. Mae arweiniad cyhoeddus ar y meini prawf cymhwysedd a'r broses ymgeisio ar gael ar ffurflen EX160A, sydd hefyd ar gael ar wefan gov.uk.
47. Yn gyffredinol, rhaid i ymgeiswyr wneud cais i ddileu'r ffi dan gynllun HwF ar yr adeg y maent yn gwneud eu cais i'r llys neu dribiwnlys y mae ffi'n daladwy ar ei gyfer, ond ar gyfer y cynllun HwF, byddai'n rhaid iddynt dalu.<sup>7</sup>
48. Mae llwybr arall ar gael lle gall ymgeiswyr wneud cais ôl-weithredol (ad-daliad) i ddileu'r ffi. Mae hyn yn digwydd pan fydd ceisydd wedi talu'r ffi ei hun ond yn credu y gallai fod ganddynt hawl i gael dileu'r ffi pe bai wedi gwneud cais ar y pryd.<sup>8</sup> Gan mai senario ad-dalu yw hon, mae terfyn amser o dri mis ar gyfer gwneud cais ôl-weithredol.<sup>9</sup>
49. Ar ôl i gais gael ei gyflwyno, bydd yn cael ei dderbyn a'i brosesu gan GLITEM. Mewn rhai achosion, gall GLITEM ofyn am dystiolaeth ddogfennol gan geisydd i gefnogi'r cais y mae wedi'i gyflwyno.

---

<sup>7</sup>Ac eithrio cais HwF ynghylch ffi yn y Llys Gwarchod. Gan ddibynnu ar y math o achos sy'n cael ei ddwyn, yr amgylchiadau ariannol i'w hasesu fydd naill ai (a) y person sy'n gwneud y cais ar ran person agored i niwed; neu (b) y person agored i niwed.

<sup>8</sup>Dim ond y ceisydd a dalodd y ffi all wneud cais. Gall ymgyfreithwyr blinderus neu ymgyfreithwyr sy'n rhwym wrth orchymyn atal sifil wneud cais am gymorth gyda ffioedd ar yr amod bod eu cais am ganiatâd i wneud cais yn llwyddiannus. Ni ellir gwneud ceisiadau ôl-weithredol ar gyfer ffioedd a delir drwy'r gwasanaeth Hawlio am Arian Ar-lein (MCOL), nac ar gyfer ffioedd chwilio na llungopïo.

<sup>9</sup>Rhaid gwneud cais ôl-weithredol o fewn (a) tri mis ar ôl i Orchymyn Terfynol gael ei gyhoeddi gan y Llys Gwarchod; neu ar gyfer pob llys a thribiwnlys arall (b) tri mis o'r dyddiad y talwyd y ffi.

## **RHAN A Y CYNIGION: Meini prawf cymhwysedd Help i Dalu Ffioedd**

50. Yn dilyn adolygiad o'r cynllun Help i Dalu Ffioedd, rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer diwygio'r meini prawf cymhwysedd.

### **Y prawf incwm**

51. O ran y prawf incwm, rydym yn cynnig y canlynol:

- Defnyddio methodoleg wedi'i diweddarau i osod trothwyon incwm newydd, Premiymau Plentyn a Phremiwm Cwpl
- Diwygio'r rhestr o ddiystyriadau incwm yn unol â'r fethodoleg trothwyon incwm wedi'u diweddarau
- Cynnal y rhestr gyfredol o fudd-daliadau prawf modd ar gyfer ymgeiswyr sy'n pasbortio drwy'r prawf incwm.
- Diwygio'r diffiniad o incwm misol gros.

### **Dileu'r ffi yn rhannol**

52. Rydym yn cynnig:

- Disodli'r rheol dileu 50% yn rhannol â chynllun tapr tri band.
- Lleihau'r cap incwm misol gros o £4,000 i £3,000 uwchlaw'r trothwy incwm misol gros.

### **Y prawf cyfalaf**

53. Rydym yn cynnig diwygio'r prawf cyfalaf drwy:

- Ddiwygio'r diffiniad o gyfalaf gwario.
- Cynyddu'r trothwy cyfalaf is o £3,000 i £4,250, yn unol â'r fethodoleg trothwyon incwm wedi'i diweddarau.

- Disodli'r system trothwy cyfalaf deg band presennol gyda strwythur tri band syml.
- Diwygio'r terfyn oedran trothwy cyfalaf o 61 oed i 66 oed.
- Diweddarau'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf i ddileu eitemau fel y nodir o dan baragraff 141141 isod.
- Ymestyn y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf i gynnwys y cynlluniau iawndal fel y rhestrir o dan baragraff 147147 isod.
- Cyflwyno 'terfyn amser' ar daliadau iawndal sydd ar y rhestr diystyriadau cyfalaf.

## Pennod 3 – Cynigion prawf incwm

### Cyflwyniad

54. Yn ymarferol, rhaid i geiswyr basio'r prawf cyfalaf cyn symud ymlaen i'r prawf incwm. Fodd bynnag, rydym yn nodi cynigion ynghylch y prawf incwm yn gyntaf gan fod ein cynigion prawf incwm yn ganolog i'r cynllun Help i Dalu Ffioedd (HwF) ac yn gosod y sylfaen ar gyfer ein newidiadau arfaethedig i'r prawf cyfalaf fel y nodir ym Mhennod 5 isod.
55. Mae ein cynigion prawf incwm yn dod o dan y meysydd canlynol:
- Trothwyon incwm
  - Diystyriadau incwm
  - Budd-daliadau pasbortio
  - Diffiniad o incwm misol gros
56. Pan fo'n briodol, rydym wedi ceisio cynnal cysondeb rhwng ein cynigion i ddiwygio cynllun HwF a'r cynigion ar gyfer diweddaru'r cynllun cymorth cyfreithiol, fel y nodir yn yr ymgynghoriad 'Adolygiad o Brawf Modd' (MTR) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, i roi cyfrif am y gwahaniaethau rhwng y ddau gynllun, mae ein cynigion yn gwyro oddi wrth y dull MTR Cymorth Cyfreithiol lle bo angen. Er eu bod yn debyg mewn sawl ffordd, mae'r cynlluniau'n sylfaenol wahanol yn eu dibenion craidd. Mae'r cynllun HwF yn darparu cymorth ariannol ar gyfer ffioedd un-tro mewn llys neu dribiwnlys. O'r herwydd, mae'n ofynnol i geisydd wneud cais HwF newydd bob tro y bydd ffi'n codi yn ystod ei achos llys neu dribiwnlys (h.y. yn ystod un achos, efallai y bydd nifer o geisiadau HwF yn ymwneud â ffioedd gwahanol). I'r gwrthwyneb, mae'r cynllun cymorth cyfreithiol fel arfer yn darparu cymorth ariannol parhaus i helpu ymgyfreithwyr i reoli eu hachosion dros gyfnod estynedig.

### Trothwyon incwm

57. Fel y nodwyd uchod, ar wahân i fân ddiwygiad yn 2014 i'r diffiniad o 'fudd-daliadau wedi'u heithrio' a'r diweddariad i'r trothwyon incwm yn ôl chwyddiant (wedi'i ôl-ddyddio i 2016) ym mis Medi 2021, nid yw'r prawf incwm wedi cael ei ddiweddaru fel arall ers cyflwyno cynllun HwF am y tro cyntaf yn 2013. .

58. Roedd y trothwyon incwm presennol yn deillio o drothwy incwm Credyd Treth Gwaith Cyllid a Thollau EM ar gyfer gweithwyr (sydd wrthi'n cael ei ddileu'n raddol a'i ddisodli gan Credyd Cynhwysol).<sup>10</sup> Adeg gweithredu'r cynllun HwF yn 2013, roedd y cyfraddau Credyd Treth Gwaith a ddefnyddiwyd yn £13,022 y flwyddyn i un person a £17,809 y flwyddyn i gwpl
59. Mae ein hadolygiad o gynllun HwF wedi nodi bod y trothwyon incwm wedi dyddio ac yn anghyson gyda chostau byw uwch. Fel y nodir yn y tabl o dan baragraff 38 uchod, y trothwy incwm misol gros yw £1,170 ar gyfer ceisydd sengl heb blant, sy'n cyfateb i incwm blynyddol o £14,040. Mae hyn yn is o lawer na'r cyflog blynyddol gros presennol o £19,760 i rywun sy'n ennill y Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW), gan weithio 40 awr yr wythnos. Bydd y bwch ond yn parhau i ehangu pan fydd cyfradd yr awr NLW yn codi i £10.42 o 1 Ebrill 2023 ymlaen, a phan fydd y cyflog blynyddol gros yn codi i oddeutu £21,674.
60. Rydym felly'n cynnig diweddarau'r trothwyon incwm. Bydd hyn yn sicrhau bod cynllun HwF yn parhau i gynorthwyo unigolion ar yr incwm isaf, fel eu bod yn gallu talu costau byw cyffredin a rhesymol heb aberthu'r elfennau hynny o'u harian tuag at ffi. Rydym yn cynnig cyflawni'r canlyniad hwn drwy bennu trothwyon incwm HwF ar sail data ar dreuliau byw a gyhoeddwyd yn Arolwg Costau Byw a Bwyd (LCF) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).
61. Set ddata a gynhyrchir yn flynyddol yw LCF ONS sy'n adlewyrchu gwybodaeth am batrymau gwario aelwydydd ledled y DU ar wahanol lefelau o incwm ('degraddau'). Mae'r gwariant wedi'i ddadansoddi'n fanwl ar draws gwahanol gategoriâu gwariant – fel bwyd a diodydd di-alcohol, trafnidiaeth, cyfathrebu ac ati. Mae LCF ONS yn ystadegyn cenedlaethol sy'n cyrraedd safonau uchel o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Mae defnyddio'r data hwn yn ein galluogi i bennu lefel yr incwm sydd ei angen ar unigolyn i gwrdd â gwariant cyffredin a rhesymol. At ddibenion cynllun HwF, mae unrhyw incwm uwchlaw'r lefel honno i bob pwrpas yn incwm gwario nad oes ei angen i gwrdd â gwariant cyffredin a rhesymol, ac felly, arian y gellir ei ddefnyddio i dalu ffi – naill ai'n rhannol neu'n llawn (gan ddibynnu ar union lefel incwm yr unigolyn).
62. Er mwyn pennu trothwy incwm misol gros HwF a Phremiymau Cyplau a Phlant cysylltiedig, rydym wedi datblygu'r fethodoleg 3-cam ganlynol. Gweler **Atodiad B** am ddadansoddiad llawn o'n methodoleg arfaethedig ar gyfer pennu'r trothwyon incwm wedi'u diweddarau.
63. **Cam 1 – y degradd incwm:** Yn debyg i sail resymegol MTR Cymorth Cyfreithiol, rydym o'r farn y dylid targedu cynllun dileu ffioedd at ddarparu'r rhan fwyaf o gymorth ariannol i aelwydydd sy'n is na'r lefel incwm canolrifol. Felly, rydym yn cynnig pennu

---

<sup>10</sup>Sylwer: gweithwyr heb blant a heb elfen 30 awr Credyd Treth.

trothwy incwm HwF gan ddefnyddio gwir wariant cyfartalog aelwydydd yn 5ed degradd incwm y boblogaeth. Mae'r 5ed degradd yn cynrychioli gwariant cyfartalog cartrefi pobl y mae eu hincwm yn perthyn i 40% i 50% o'r ffordd i fyny dosbarthiad incwm y DU.<sup>11</sup>

64. **Cam 2 – gwariant cyffredin a rhesymol:** Er mwyn sefydlu beth ddylid ei gynnwys yn y trothwy incwm fel gwariant cyffredin a rhesymol, roeddem wedi asesu'r holl gategoriâu gwariant yn LCF ONS ac wedi gwneud penderfyniadau i eithrio rhai categorïau gwariant nad ydynt yn hanfodol yn ein barn ni – fel alcohol, tybaco, cyffuriau, a thaliadau gamblo. Mae **Atodiad B** yn cynnwys esboniad manwl ynghyd â rhestr lawn o'r categorïau sydd wedi'u cynnwys a'u heithrio at ddibenion y prawf incwm. Nodwn fod y dull hwn hefyd wedi'i ddefnyddio gan yr MTR Cymorth Cyfreithiol (er ei fod yn cyfrif am wahaniaethau rhwng y cynlluniau fel y nodir uchod ym mharagraff 5555).
65. **Cam 3 – cyfwerthedd:** Er bod methodoleg LCF ONS yn pennu'r trothwy incwm ar gyfer unigolyn sengl heb blant, nid yw'n ystyried cyfansoddiadau aelwydydd gwahanol – sef sefydlu Premiymau Cwpl a Phlentyn ar gyfer prawf incwm HwF. Gwyddom fod cyfansoddiad yr aelwyd yn cael effaith uniongyrchol ar gostau byw ac, o ganlyniad, ar p'un ai all ymgeisydd fforddio ei ffi llys neu dribiwnlys. Fel y nodir ym Mhennod 2 uchod, mae'r cynllun HwF presennol eisoes yn cyfrif aelwydydd o wahanol feintiau drwy ychwanegu premiymau ar gyfer aelodau ychwanegol o aelwyd – drwy Breimiwm Cyplau a Phlentyn. Rydym yn bwriadu diweddarau'r Premiymau drwy gymhwysu proses 'cyfwerthedd' i ddata LCF ONS.
66. Proses economaidd yw cyfwerthedd sy'n addasu incwm i ystyried anghenion aelwydydd o wahanol faint. Yn unol â'r MTR Cymorth Cyfreithiol, rydym yn cynnig defnyddio graddfa cyfwerthedd wedi'i haddasu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef y raddfa sy'n cael ei mabwysiadu amlaf yn rhyngwladol, ac mae'n cael ei defnyddio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar gyfer ystadegau allweddol am incwm aelwydydd.
67. Ar ben hynny, wrth ddefnyddio cyfwerthedd, rydym yn cynnig diweddarau'r Premiwm Plentyn i gyfrif am wahanol anghenion gwariant yn seiliedig ar oedran y plentyn. Rydym yn cynnig sefydlu dwy lefel – Premiwm is i blentyn rhwng 0 a 13 oed; a Phremiwm uwch i blentyn dros 14 oed sy'n cyfateb i'r Premiwm Cwpl.

---

<sup>11</sup>Cyflog blynyddol o £29,000 - £36,800.

## Trothwyon incwm arfaethedig yn seiliedig ar y fethodoleg a ddiweddarwyd

68. Fel cynnig gweithredol, i ddeall ffigurau posibl ar gyfer trothwy incwm HwF, rydym wedi defnyddio ein methodoleg arfaethedig ar gyfer set ddata LCF ONS ar gyfer 2019/20.
69. Er bod set ddata fwy diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer blwyddyn 2020/21 ar gael, nid ydym wedi defnyddio'r data hwnnw gan ei bod yn cael ei ystumio gan effaith pandemig COVID-19 ar wariant aelwydydd y flwyddyn honno. Yn ein barn ni, mae set ddata 2019/20 yn adlewyrchu arferion gwario nodweddiadol aelwydydd yn fwy cywir. Er enghraifft, roedd aelwydydd yn y 5ed degradd yn 2020/21 wedi gweld cynnydd sylweddol mewn gwariant ar dai, tanwydd a phŵer ond gostyngiad sylweddol yn y gwariant ar drafnidiaeth, hamdden a diwylliant, a thai bwyta a gwestai. Felly, nid yw'n rhoi darlun cywir o wariant aelwydydd sy'n addas i'w roi ar waith mewn unrhyw gynigion ar gyfer diwygio'r cynllun HwF. Dangosir hyn gan y ffaith bod cymhwyso ein methodoleg uchod i ddata 2020/21 yn darparu ar gyfer trothwyon incwm HwF is o'i gymharu â defnyddio data 2019/20.
70. Gan ddefnyddio data 2019/20, dyma'r trothwyon incwm arfaethedig:

<b>Trothwyon incwm misol gros gan ddefnyddio 5ed degradd incwm LCF ONS 2019/20 a chyfwerthedd OECD</b>	
Trothwy unigol ar gyfer ymgeisydd sengl	£1,420
Premiwm Cwpl	£710
Premiwm Plentyn (14 oed a hŷn)	£710
Premiwm Plentyn (0-13 oed)	£425

71. Yn unol â'r cyhoeddiad blynyddol, rydyn ni'n deall y bydd Arolwg LCF nesaf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y flwyddyn 2021/22 ar gael ym mis Mawrth 2023. Felly, rydym yn cynnig adolygu ein defnydd o ddata 2019/20 a'r trothwyon arfaethedig yn y tabl uchod pan fydd data 2021/22 yn cael ei gyhoeddi.
72. Rydym hefyd yn cydnabod nad yw defnyddio data LCF ONS ar gyfer 2019/20, ac felly'r trothwyon arfaethedig uchod, yn cynnwys effeithiau parhaus y cynnydd mewn chwyddiant yn y DU. Fel rhan o'n hadolygiad HwF, er ein bod wedi edrych ar y posibilrwydd o addasu'r trothwyon incwm arfaethedig i ystyried chwyddiant, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r opsiwn hwn am y rhesymau canlynol:
- Mae cryn ansicrwydd ynghylch beth fydd chwyddiant yn y tymor byr a'r tymor hir. Yn absenoldeb darlun clir a phenodol, nid ydym yn credu ei bod yn ddoeth cynnwys unrhyw lefel o gynnydd mewn chwyddiant. Serch hynny, byddwn yn



parhau i fonitro chwyddiant a'i effeithiau ar wariant aelwydydd ac yn ailasesu ein sefyllfa os bydd angen, ac yn ôl yr angen.

- Nid oes digon o dystiolaeth am effaith barhaol y cynnydd parhaus mewn chwyddiant ar wariant cartrefi. Heb dystiolaeth o'r fath, byddai uwchraddio'r trothwyon incwm i gyfrif am chwyddiant yn anghyson â'n methodoleg arfaethedig, sy'n seiliedig ar wir wariant aelwydydd y DU.
73. Rydym o'r farn mai dibynnu ar ddata LCF ONS 2019/20 i gyfrifo'r trothwy incwm ac adolygu'r ffigurau yng ngoleuni data 2021/22 pan gaiff ei gyhoeddi, yw'r dull gweithredu mwyaf priodol o hyd.

## Trothwyon incwm arfaethedig yn seiliedig ar y fethodoleg a ddiweddarwyd: enghreifftiau ymarferol

### Enghraifft 1

**Sefyllfa:** Mae Tara yn rhiant sengl gyda phlentyn 8 oed. Mae'n cael cyflog gros misol o £1,500 y mis (~£18k y flwyddyn). Y ffi yw £232.

Canlyniad o dan y cynllun presennol: Y trothwy sy'n berthnasol i Tara yw'r trothwy incwm gros (£1,170) a Phremiwm o £265 ar gyfer ei phlentyn – cyfanswm o £1,435. Gan fod ei hincwm o £1,500 yn **uwch** na'r trothwy o £1,435, disgwylir iddi dalu rhan o'r ffi. **Bydd yn talu £30 ac yn cael £202 o ostyngiad.**

Canlyniad o dan y trothwy incwm arfaethedig wedi'i ddiweddarau: Y trothwy a fyddai'n berthnasol i Tara fyddai £1,420 (trothwy incwm gros newydd) yn ogystal â phremiwm o £425 ar gyfer ei phlentyn, sef £1,845. Gan fod ei hincwm yn llai na £1,845, bydd ei ffi yn cael ei dileu'n llawn.

### Enghraifft 2

**Sefyllfa:** Mae Terry'n byw gyda'i wraig Demi a'u tri phlentyn (10, 13 a 15 oed). Mae'n ennill cyflog gros o £2,500 y mis (~£30k y flwyddyn) a Demi ar gyflog gros rhan-amser o £750 y mis = cyfanswm incwm gros yr aelwyd o £3,250. Y ffi yw £183.

Canlyniad o dan y cynllun presennol: Y trothwy sy'n berthnasol i Terry yw £1,170 (trothwy is) yn ogystal â £175 (Premiwm Cwbl) a 3 x £265 (3x Premiwm Plentyn) = £2,140. Mae eu hincwm misol cyfunol o £3,250 yn **uwch** na'r trothwy, felly **bydd yn rhaid iddo dalu'r ffi lawn.**

Canlyniad o dan y trothwy incwm arfaethedig wedi'i ddiweddarau: Y trothwy perthnasol o dan y cynllun newydd fyddai £1,420 (trothwy is) a £710 (Premiwm Cwpl) a 2 x £425 (Premiwm ar gyfer plant 0-13 oed) a £710 (Premiwm ar gyfer plant 14 oed a hŷn) = £3,690. Mae incwm gros eu cartref yn **llai** na £3,690 felly **bydd yn cael gostyngiad llawn.**

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'n methodoleg arfaethedig i bennu'r trothwyon incwm gan ddefnyddio data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno â'n methodoleg arfaethedig i ddefnyddio'r 5ed degradd incwm i bennu'r trothwyon incwm? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r categorïau gwariant 'hanfodol' a 'heb fod yn hanfodol', fel y nodir yn **Atodiad B**, at ddibenion cyfrifo'r trothwyon incwm? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddefnyddio graddfa cywerthedd wedi'i haddasu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i sefydlu'r Premiwm Cwpl a Phremiwm Plentyn? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i osod dwy lefel o Bremiwm Plentyn – premiwm is i blentyn rhwng 0 a 13 oed a phremiwm uwch i blentyn dros 14 oed? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddefnyddio data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019/20 i bennu'r trothwyon incwm? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i adolygu'r trothwyon incwm (fel y nodir yn y tabl o dan baragraff 70 uchod) pan fydd data LCF 2021/22 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cael ei gyhoeddi yn 2023? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i wrthod addasu'r trothwyon incwm yn ôl chwyddiant fel yr esbonnir uchod? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## Diystyriadau incwm

74. Fel y nodir uchod ym mharagraff 39, diystyrir rhai budd-daliadau a ffurfiau ar incwm o'r prawf incwm. Roedd yr ymgynghoriad yn 2013 yn nodi bod y rhan fwyaf o fudd-daliadau wedi'u heithrio yn cefnogi 'person ag anabledd' neu 'wedi cyfrannu at gostau gofal plant', er bod rhai budd-daliadau tai, gofal cymdeithasol a budd-daliadau cysylltiedig â phrofedigaeth hefyd wedi'u nodi yn y rhestr o fudd-daliadau wedi'u heithrio.
75. O ystyried ein methodoleg arfaethedig ar gyfer pennu'r trothwy incwm misol gros, rydym yn cynnig diweddarau'r rhestr o ddiystyriadau incwm i sicrhau mai'r unig fathau o incwm i'w heithrio yw'r rhai sy'n angenrheidiol i dalu costau nad ydynt yn cael eu cynrychioli yn nata LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sef:

- a) taliadau a fwriedir ar gyfer angen ariannol ar unwaith, h.y. taliadau ymlaen llaw Credyd Cynhwysol neu daliadau cymorth profedigaeth.
  - b) taliadau a fwriedir ar gyfer set benodol o gostau nad oes modd eu hosgoi, e.e. costau sy'n ymwneud ag anabledd.
76. Yn unol â'r MTR Cymorth Cyfreithiol, nid ydym yn credu ei bod yn briodol i gynllun HwF gynnwys incwm o'r ffynonellau hyn oherwydd bod pob taliad yn cael ei ddarparu i dalu cost benodol sy'n unigryw i unigolion penodol, na ellir ei gynnwys ym methodoleg LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol. I'r gwrthwyneb, nid ydym yn cynnig diystyru taliadau a ddarperir i gefnogi rhywun sydd â chostau byw cyffredinol gan fod methodoleg LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhoi cyfrif amdanynt.
77. Rydym felly'n cynnig tynnu'r taliadau canlynol o'r rhestr gyfredol o ddiystyriadau incwm:
- a) Budd-dal Tai
  - b) Bonws dychwelyd i'r gwaith
  - c) Eifen Tai y Credyd Pensiwn
  - d) Lwfans Rhiant Gweddwr
  - e) Eifen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith
78. Mae rhestr lawn a disgrifiad o'r budd-daliadau hynny a fyddai'n cael eu dileu, eu cadw neu eu hychwanegu at y rhestr o ddiystyriadau incwm ar gael yn **Atodiad C** ynghyd â'r rhesymeg dros y newidiadau arfaethedig.

### **Credyd Cynhwysol**

79. Ar hyn o bryd mae cynllun HwF yn diystyru'r elfennau Credyd Cynhwysol canlynol:
- a) swm ychwanegol at yr elfen plentyn mewn perthynas â phlentyn anabl
  - b) elfen costau tai
  - c) elfen costau gofal plant
  - d) elfen gofalwr
  - e) gallu cyfyngedig i weithio neu allu cyfyngedig ar gyfer yr elfen gwaith a gweithgarwch cysylltiedig â gwaith

80. Yn unol â'r rhesymeg a nodir uchod ynghylch diystyru incwm, rydym yn bwriadu parhau i ddiystyru elfennau o'r Credyd Cynhwysol a ddarperir i gefnogi pobl anabl a gofalwyr. Yn yr un modd, er mwyn parhau i fod yn gyson â'n rhesymeg, rydyn ni'n cynnig dileu'r diystiriadau ar gyfer yr elfennau tai a gofal plant, gan fod y costau hyn yn cael eu cynnwys yn nata LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac felly'n cael eu hystyried gan ein methodoleg arfaethedig ar gyfer pennu trothwyon incwm.

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiweddarau'r rhestr o ddiystiriadau incwm fel yr amlinellir uchod, ac yn **Atodiad C**? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## Budd-daliadau pasbortio

81. Fel y nodir dan baragraffau 32 i 34 uchod, mae cynllun HwF yn pasbortio ymgeiswyr sy'n derbyn rhai budd-daliadau prawf modd cymwys drwy'r prawf incwm. Nod pasbortio yw symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer unigolion sydd wedi cael asesiad modd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac sydd felly'n debygol iawn (oherwydd eu hincwm isel) o fod yn gymwys i gael dileu'r ffi os ydynt wedi cael asesiad llawn. Mae'r dull hwn hefyd yn symleiddio'r broses ar gyfer GLITEM ac yn lleihau'r pwysau ychwanegol arno.
82. Fel rhan o'n hadolygiad HwF, roeddem wedi dadansoddi a yw'r rhestr o fudd-daliadau pasbortio yn dal yn berthnasol neu a oes angen unrhyw newidiadau. Ar ôl asesu, nid ydym o'r farn bod angen gwneud unrhyw newidiadau.
83. Yn ein hadolygiad, roeddem wedi rhoi sylw penodol i'r rheini sy'n cael Credyd Cynhwysol sy'n cael eu pasbortio drwy'r cynllun HwF. Ar hyn o bryd, mae'r rheini sy'n derbyn Credyd Cynhwysol sydd ag enillion ychwanegol o lai na £6,000 y flwyddyn (£500 y mis) yn cael eu pasbortio drwy'r prawf incwm HwF. Nid yw'r rheini sy'n cael Credyd Cynhwysol ond sy'n cael enillion ychwanegol o fwy na £6,000 y flwyddyn yn cael eu pasbortio a bydd eu hincwm yn cael ei asesu'n llawn.
84. Cyflwynwyd Credyd Cynhwysol yn 2013 yn lle Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm, Treth Plant, Credyd Treth Gwaith a Budd-dal Tai. Cyfeirir at y budd-daliadau hyn yn awr fel 'budd-daliadau gwaddol' ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu symud pawb sy'n derbyn budd-daliadau i Gredyd Cynhwysol erbyn 2024.
85. Mae Credyd Cynhwysol yn golygu lwfans safonol penodol sy'n cael ei gynyddu gyda 'elfennau' ar gyfer nodweddion penodol, fel bod yn ofalwr neu fod yn anabl (fel y

nodir uchod). Ar gyfer pobl sy'n ennill incwm ar wahân i Gredyd Cynhwysol (a elwir yn 'lwfans gwaith'), mae'r swm a delir iddynt yn lleihau'n raddol gan eu bod yn ennill mwy na'u lwfans gwaith. Felly, i lawer o bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, bydd eu hincwm yn cael ei gyfrif yn ôl swm eu henillion a'u dyfarniad Credyd Cynhwysol terfynol.

86. Fel y nodir ym mharagraff 33 uchod, ni fydd ymgeiswyr HwF sy'n cael Credyd Cynhwysol gydag enillion ychwanegol o dros £6,000 y flwyddyn yn cael eu pasbortio drwy'r prawf incwm.
87. I'r gwrthwyneb, mewn cymorth cyfreithiol sifil ar hyn o bryd, mae pawb sy'n derbyn Credyd Cynhwysol wedi'u pasbortio, beth bynnag fo'u henillion ychwanegol. Fel y nodwyd yn yr MTR Cymorth Cyfreithiol ym mharagraffau 196 i 198, mae'r dull gweithredu hwn wedi arwain at gostau sylweddol a chanlyniadau anghyson rhwng ymgeiswyr Credyd Cynhwysol a rhai nad ydynt. Yn unol â hynny, roedd MTR Cymorth Cyfreithiol yn cynnig cyflwyno trothwy enillion ar gyfer pasbortio'r rheini sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, a oedd hefyd wedi'i bennu ar enillion ychwanegol o £500 bob mis calendr (gros). Pennwyd y trothwy hwn ar ôl dadansoddiad manwl a ddaeth i'r casgliad y byddai 99% o aelwydydd sy'n ennill rhwng £0 a £500 bob mis calendr o dan y trothwy hwn yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol anghyfrannol (o'i gymharu â 73% yn unig yn gymwys wrth basportio pawb sy'n derbyn Credyd Cynhwysol).
88. Yn ein hadolygiad, gwnaethom yr un dadansoddiad manwl o'r cynllun HwF a'r rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol. Roeddem am sicrhau bod y trothwy presennol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng pasbortio cynifer o unigolion â phosibl er mwyn sicrhau'r tegwch a'r effeithlonrwydd gweithredol gorau posibl, gan leihau'r nifer o unigolion na fyddent fel arall yn gymwys i gael dileu'r ffi'n llawn.
89. Yn dilyn y dadansoddiad hwnnw, rydym wedi dod i'r casgliad bod y trothwy presennol o £6,000 y flwyddyn (neu £500 y mis) yn dal i daro'r cydbwysedd priodol. O dan y cynllun HwF presennol, byddai 93% o'r rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol sy'n cael eu pasbortio yn gymwys i gael dileu'r ffi'n llawn pe baent yn cael eu profi. O dan y cynllun diwygiedig arfaethedig,<sup>12</sup> byddai dros 99% o'r rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol yn gymwys i gael dileu'r ffi'n llawn pe baent yn cael eu profi.
90. Rydym yn cydnabod bod hyn yn golygu y bydd canran fach iawn o'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cael esemptiad uwch o'r ffi nag y byddent pe baent wedi cael asesiad llawn o incwm, ond credwn fod manteision gweinyddol pasbortio i ymgeiswyr a GLITEM yn fwy o lawer na'r gost fach sy'n gysylltiedig â hynny.

---

<sup>12</sup>Hynny yw, petai pob cynnig a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael ei roi ar waith.

**Cwestiwn 10:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gynnal y rhestr gyfredol o fudd-daliadau prawf modd ar gyfer pasbortio ymgeiswyr drwy'r prawf incwm? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## Diffiniad o incwm misol gros.

91. Rydym yn cynnig tri newid i'r diffiniad o incwm misol gros.

### Diffiniad o incwm misol gros, Cynnig 1

92. Dan baragraff 13 Gorchymyn Dileu Ffioedd Llysoedd a Thriwlynlysoedd 2013, diffinnir incwm misol gros ar hyn o bryd fel:

*“(1) Yn ddarostyngedig i baragraff 14, mae incwm misol gros yn golygu cyfanswm yr incwm misol, am y mis cyn y mis y gwneir y cais i ddileu ffi, o bob ffynhonnell, ac eithrio derbyn unrhyw rai o'r budd-daliadau eithriedig.*

93. Er bod rhywfaint o eglurhad pellach o dan baragraff 13(2) a (3) ynghylch incwm o grefft, busnes neu alwedigaeth ar wahân i alwedigaeth am gyflog neu dâl, nid yw'r diffiniad o incwm craidd yn ddigon clir. Ar ei ffurf bresennol, mae'n agored i'w ddehongli, er enghraifft lle mae ffynonellau incwm ansafonol yn berthnasol, fel rhoddion arian parod. Mae'r effaith hon yn gwrthdaro ag un o amcanion allweddol adolygiad HwF: sicrhau cynllun syml i ymgeiswyr ei ddeall, ac i GLITEM i'w gymhwyso. Mae'r diffiniad presennol hefyd yn anghyson â'r diffiniad o incwm o dan gymorth cyfreithiol sifil – adran 21 o Reoliad Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thalu am Wasanaethau) 2013.

94. Rydym felly'n cynnig diwygio'r diffiniad o'r hyn sy'n cyfrif fel incwm misol gros i gyd-fynd â chymorth cyfreithiol sifil fel a ganlyn:

*y swm gros y mae'r unigolyn wedi'i ennill, swm gros unrhyw hawliadau sydd wedi cronni, ac unrhyw symiau gros eraill o unrhyw ffynhonnell y mae'r unigolyn wedi'i derbyn.*

95. Byddwn yn sicrhau bod y canllawiau cyhoeddus ar incwm misol gros sydd ar ffurflen EX160A, sydd hefyd ar gael ar wefan gov.uk, yn cael eu diweddarau gydag enghreifftiau perthnasol o'r hyn y dylai ymgeiswyr ei gynnwys fel incwm yn ôl yr angen.

**Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r diffiniad o incwm misol gros yn unol â pharagraff 94? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

### Diffiniad o incwm misol gros, Cynnig 2

96. Ar hyn o bryd, y diffiniad o incwm misol gros yng nghynllun HwF yw cyfanswm yr incwm misol a dderbyniwyd yn y mis cyn gwneud y cais. Ar gyfer personau hunangyflogedig, yr incwm hwnnw yw swm elw a thyniadau'r ceisydd yn y mis cyn y cais.
97. Fodd bynnag, mae'r terfyn 'un mis' yn anhyblyg o ran cydnabod bod gan bobl sy'n hunangyflogedig neu'n gyflogedig i weithio shifftiau incwm cyfnewidiol o fis i fis, yn dibynnu ar y gwaith sydd ar gael. Gallai profi'r incwm a gronnwyd yn ystod y mis cyn cais HwF roi rhai ymgeiswyr dan anfantais, gan ei fod yn cynyddu'r risg y byddai rhywun a oedd wedi cronni enillion anarferol o uchel yn y mis cyn eu cais yn anghymwys i gael gostyngiad yn y ffi.
98. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, rydym yn cynnig diwygio'r prawf incwm i **ganiatáu i ymgeisydd ddewis a yw'n cyfrifo ei incwm ar sail un mis neu gyfartaledd o dri mis cyn gwneud cais HwF**. Byddai cyflwyno opsiwn fel hyn yn rhoi darlun mwy cywir o incwm nodweddiadol ymgeisydd os yw'n hunangyflogedig neu'n gyflogedig yn achlysurol ac yn llai tebygol o ennill yr un swm bob mis.

**Cwestiwn 12:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i roi dewis i ymgeiswyr rhwng defnyddio incwm misol neu incwm cyfartalog tri mis ar gyfer y prawf incwm? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

### Diffiniad o incwm misol gros, Cynnig 3

99. Ar hyn o bryd, mae'r prawf incwm yn ystyried unrhyw dyniadau y mae'r ymgeisydd wedi'u gwneud yn y mis calendr cyn eu cais fel incwm. Yn achos ceiswyr hunangyflogedig, mae unrhyw 'dyniadau' y maent yn eu cymryd o'u busnes i bob pwrpas yn elw a enillwyd yn flaenorol ac sy'n cael ei gymryd o'r busnes i'w ddefnyddio ar gyfer gwariant personol.
100. Gan fod tyniadau yn eu hanfod yn gyfalaf sydd ar gael i geisydd ei ddefnyddio ar gyfer gwariant personol, ein barn ni yw na ddylid ystyried tyniadau'n incwm at ddibenion cynllun HwF, ond yn hytrach eu bod yn cyfrannu at gyfalaf y ceisydd ar ôl i'r ceisydd gymryd y tyniadau ac yn meddu arnynt. Felly, rydym yn cynnig nad yw'r cynllun bellach yn cynnwys tyniadau yn y prawf incwm.



**Cwestiwn 13:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r diffiniad incwm misol gros i beidio â chynnwys tyniadau fel incwm mwyach? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## Pennod 4 – Cynigion i ddileu ffioedd yn rhannol

### Cyflwyniad

101. Fel y nodir ym mhennod 1, ar ôl i geisydd basio'r prawf cyfalaf, mae'r prawf incwm yn pennu lefel y cymorth ariannol y dylid ei ddarparu. Os yw incwm misol gros yr aelwyd yn **uwch** na'r **trothwy** incwm misol gros ond yn **is** na'r **cap** incwm misol gros, bydd yr ymgeisydd yn cael cymorth rhannol gyda'i ffi.
102. Drwy bolisi dileu'r ffi'n rhannol, mae'r cynllun Help i Dalu Ffioedd (HwF) yn cydnabod, hyd yn oed os yw rhywun uwchlaw'r trothwy incwm, efallai y bydd angen cymorth ariannol arnynt o hyd i dalu ffi'r llys neu'r tribiwnlys. Felly, y bwriad yw darparu cymhorthdal cymesur i unigolion sydd ag incwm sy'n is na'r cap incwm misol penodedig.
103. Roedd ein hadolygiad o gynllun HwF yn dadansoddi 'rheol 50%' a chap incwm y polisi dileu ffioedd yn rhannol cyfredol i asesu a ydynt yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau mynediad at gyfiawnder i'r rheini sydd â gallu ariannol cyfyngedig a rhoi gwerth am arian i drethdalwyr. Canfu ein dadansoddiad ddau brif fater yn ymwneud â'r polisi presennol.
104. Yn gyntaf, mae'r cap presennol ar incwm – sydd £4,000 yn uwch na'r trothwy incwm – yn rhy uchel. Er enghraifft, £1,170 (trothwy) yw'r cap incwm ar gyfer ymgeisydd sengl heb blant + £4,000 = £5,170. Gan ddefnyddio'r un egwyddor, o dan ein trothwyon incwm misol arfaethedig fel y nodir uchod, byddai'r cap incwm misol newydd yn dechrau ar £5,420 ar gyfer ymgeisydd sengl heb blant (trothwy arfaethedig o £1,420 + £4,000). Mae hyn yn golygu y gallai person sengl heb blant sydd â chyflog blynyddol gros o tua £65,000 (yn seiliedig ar incwm misol o £5,420) fod yn gymwys i gael gostyngiad yn y ffi. Ar ben hynny, yn dibynnu ar lefel y ffi, gallai'r rheol 50% olygu eu bod yn cael cymhorthdal sylweddol ar gyfer eu ffi. Byddai'r canlyniad hwn yn amlwg yn erbyn un o ddibenion canolog cynllun HwF – targedu cymorth at unigolion heb lawer o fodd ariannol, yn enwedig y rheini ar incwm sy'n is na'r lefel incwm canolrifol. Mae cyflog o £65,000 tua dwbl canolrif incwm cartref gros y DU o £33,000 y flwyddyn (£2,750 y mis).<sup>13</sup> Gan fod trethdalwyr yn rhoi cymhorthdal llawn i gynllun HwF, byddai canlyniad o'r fath hefyd yn groes i'n nod i sicrhau gwerth am arian trethdalwyr.

<sup>13</sup>Yn seiliedig ar gyflog wythnosol canolrifol o £640 ar gyfer gweithwyr amser llawn ym mis Ebrill 2022.

105. Yn ail, mae'r rheol sefydlog o 50% yn rhy anhyblyg. Mae'r rheol yn unffurf drwy'r cynllun cyfan, heb ystyried a yw ymgeisydd yn *sylweddol* uwch na'r trothwy incwm misol gros neu a yw rhywun *fymryn* uwchben y trothwy. Yn y ddau achos, disgwylir i'r ymgeisydd dalu ei ffi'n llawn neu'n rhannol, hyd at lefel o 50% o'i incwm uwchlaw'r trothwy incwm misol gros. Fel y nodwyd uchod, bwriad y polisi dileu ffioedd yn rhannol yw penderfynu faint o incwm gwario person y dylid ei roi tuag at ffi. Yn dilyn y rhesymeg hon, mae'n briodol disgwyl i rywun sydd ag incwm uwch (ac felly, mwy o incwm gwario) ddefnyddio mwy o'r incwm hwnnw i dalu ei ffi – ac i'r gwrthwyneb.

## Y cynnig

106. Rydym yn cynnig disodli'r polisi dileu ffioedd yn rhannol gyda chynllun tapro tri band sy'n lleihau'r cap incwm misol gros o £4,000 i **£3,000** uwchben y trothwy incwm misol gros:

### Ein cynllun tapro dileu ffioedd yn rhannol arfaethedig

Band	Lefel incwm misol gros	% yn daladwy tuag at ffi llys neu dribiwnlys
1	Hyd at £1,000 yn uwch na'r trothwy	50%
2	£1,001 i £2,000 yn uwch na'r trothwy	70%
3	£2,001 i £3,000 yn uwch na'r trothwy	90%

107. Byddai'r cynllun tapro ynghyd â'r cap incwm misol gros diwygiedig yn gweithredu'n debyg i Dreth Incwm fel mai dim ond yr incwm o fewn y band penodol hwnnw fyddai'n destun y ffi cyfrannu berthnasol. Er ein bod yn defnyddio canrannau i adlewyrchu'r newidiadau uchod, yn ymarferol byddai ein cynnig yn gweithredu yn unol â'r cynllun presennol, h.y. mae 70% yn golygu, am bob £10 uwchben y trothwy perthnasol, eu bod yn cyfrannu £7, am 90% eu bod yn cyfrannu £9 ayb.
108. Wrth ddewis y bandiau a'r canrannau a gynigir, rydym wedi canolbwyntio ar leihau lefel y cymhorthdal a ddarperir gan gynllun HwF i'r incymau hynny sy'n uwch na'r trothwy incwm misol gros, gan sicrhau hefyd bod y cynnydd canrannol yn gymharol lyfn.
109. Wrth gyrraedd y ffigur o £3,000 ar gyfer y cap incwm misol, rydym wedi ystyried sawl ffactor. Yn gyntaf, rydym wedi nodi'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, sy'n datgan na ddylai unigolion sydd ag incwm uwch na'r canolrif cenedlaethol fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol sifil anghyfrannol. Rydym hefyd wedi ystyried unrhyw effeithiau posibl ar fynediad at gyfiawnder. Ar ôl asesu, nid ydym yn credu y byddai lleihau'r cymorth i unigolion sydd ag incwm uwch na'r canolrif cenedlaethol yn rhwystro mynediad at gyfiawnder. Os nad yw ymgeiswyr yn gymwys

i gael dileu'r ffi'n rhannol drwy ein diwygiadau arfaethedig i gynllun HwF, byddai lefel eu hincwm yn awgrymu'n glir y dylent, ac y gallant fforddio, defnyddio eu hincwm gwario i dalu ffi. Lle nad yw unigolyn yn gymwys i gael cymorth drwy gynllun HwF, mae ymgeiswyr yn dal i allu gwneud cais i ddileu ffioedd o dan bŵer eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd.

110. Yn olaf, rydym hefyd wedi ystyried effaith go iawn lleihau'r cap. Er gwaethaf llai o gymorth i'r rheini sydd ar incwm uwch, bydd ein cynnig i wneud trothwyon incwm misol y cynllun yn fwy hael yn golygu y bydd y mwyafrif helaeth o bobl yn dal i elwa o'n diwygiadau arfaethedig i'r prawf incwm. O'r herwydd, bydd ein cynnig i leihau'r cap incwm misol yn effeithio ar y rheini sydd ag incwm uwch na'r canolrif cenedlaethol yn unig. Er enghraifft, gall aelwydydd ag incwm misol gros o rhwng £3,200 a £4,420 (tua £38,000 i £53,000 y flwyddyn) dalu mwy o'u ffi dan ein cynllun arfaethedig – ond dim ond os yw'r ffi yn oddeutu £1,100 neu'n fwy. Fodd bynnag, nodwn y bydd ymgeiswyr sengl heb blant ac incwm misol gros o £3,200 neu lai (tua £38,000 y flwyddyn) yn talu'r un swm neu lai am unrhyw ffi dan y rheol 50% a'n cynllun arfaethedig.
111. O dan ein cynllun tapro arfaethedig gyda chap incwm misol is, mae lefel dileu ffioedd yn gostwng wrth i incwm misol gros yr ymgeisydd gynyddu uwchlaw'r trothwy misol. Mae hyn yn sicrhau cyfraniadau cymesur i'r rheini sydd ar incwm uwch ac sydd â mwy o incwm gwario. Mae hefyd yn lleihau ac yn llyfnhau'r trothwy uchaf sy'n bodoli o dan y rheol bresennol o 50%.

### Cynigion i ddileu'r ffi'n rhannol: enghraifft ymarferol

Mae Razana yn sengl a heb blant. Mae ganddi incwm cartref misol gros o £4,000. Y ffi yw £2,000.

Gan gymhwyso'r trothwyon incwm misol gros arfaethedig fel y nodir ym Mhennod 4, y trothwy perthnasol fyddai **£1,420**.

Gan ddefnyddio'r cap incwm misol gros arfaethedig fel a gynigir uchod, byddai'r cap perthnasol yn **£4,420** (£1,420 + £3,000).

Mae Razana dros y trothwy incwm ond o dan y cap incwm. Gan ei bod yn ennill **£2,580** yn fwy na'r trothwy, byddai ei gostyngiad ffi rhannol o dan ein cynllun tapro arfaethedig yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Band 1: Mae £1,000 o'i hincwm yn perthyn i Fand 1. Mae 50% o hyn yn £500.
- Band 2: Mae £1,000 o'i hincwm yn perthyn i Fand 2. Mae 70% o hyn yn £700.
- Band 3: Mae £580 o'i hincwm yn perthyn i Fand 3. Mae 90% o hyn yn £520.<sup>14</sup>

Mae'n rhaid i Razana dalu cyfanswm o **£1,720** (£500 + £700 + £520) tuag at y ffi o £2,000. Bydd y £280 sy'n weddill yn cael ei ad-dalu.

**Cwestiwn 14:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddisodli'r rheol gostyngiad rhannol sefydlog o 50% gyda'r cynllun tapro tri band a nodir uchod? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 15:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i leihau'r cap incwm aelwydydd misol gros i £3,000 uwchben y trothwy incwm misol gros? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

<sup>14</sup>Talgrynwyd i lawr i'r £5 agosaf.

## Pennod 5 – Cynigion prawf cyfalaf

### Cyflwyniad

112. Mae'r bennod hon yn nodi ein cynigion mewn perthynas â'r prawf cyfalaf, o dan y meysydd canlynol:

- Diffiniad o gyfalaf gwario
- Y trothwy cyfalaf is
- Y system band trothwy cyfalaf
- Y cap oedran
- Diystiriadau cyfalaf

113. Mae'r prawf cyfalaf, fel y'i cyflwynwyd yn 2013, yn ystyried dau ffactor allweddol:

- **Symlrwydd:** Cynlluniwyd y cynllun i weithredu ar draws holl awdurdodaethau'r llysoedd a'r thriwlynlysoedd mor syml â phosibl heb wahaniaethu rhwng mathau o ffioedd neu ymgeiswyr. Roedd y gofynion o ran tystiolaeth yn cael eu cadw'n ysgafn yn fwriadol er mwyn lleihau'r baich ar ymgeiswyr a GLITEM.
- **Tegwch:** Gall maint ffioedd llysoedd a thriwlynlysoedd amrywio'n fawr gan ddibynnu ar y math o wasanaeth a'r awdurdodaeth y mae'r ceisydd yn ceisio'i chael. Felly, cynlluniwyd system fandog fel pan fo maint y ffi'n cynyddu, bod lefel y trothwy cyfalaf perthnasol yn codi hefyd. Mae hyn yn sicrhau system deg a chymesur lle bydd ceiswyr yn cael yr help sydd ei angen arnynt.

114. Lluniwyd y prawf cyfalaf i hidlo allan o'r cynllun yn briodol yr unigolion hynny â chyfalaf gwario sylweddol y gellid ei ddefnyddio i ariannu eu ffi. Pan fydd gan rywun swm sylweddol o gynilion neu asedau cyfalaf eraill, mae'n rhesymol disgwyl iddynt ddefnyddio'r adnoddau hynny i dalu eu ffi cyn defnyddio arian cyhoeddus. Mae gweithredu'r trothwy hwn yn golygu bod y cynllun Help i Dalu Ffioedd yn parhau i ganolbwyntio ar helpu'r unigolion hynny sydd ag ychydig neu ddim cynilion, na fyddent, oni bai am y cynllun, yn gallu defnyddio'r system llysoedd a thriwlynlysoedd.

115. Mae'r cynigion i ddiwygio'r prawf cyfalaf wedi cael eu datblygu gyda'r bwriad o gynnal y rhesymeg graidd y tu ôl i'w gyflwyno a chryfhau ymhellach yr egwyddorion o symlrwydd, tegwch a mynediad at gyfiawnder.

## Diffiniad o gyfalaf gwario

116. O dan baragraff 5 o Orchymyn Dileu Ffi'r Llys a'r Tribiwnlysoedd 2013, diffinnir cyfalaf gwario ar hyn o bryd fel:

*“gwerth pob adnodd o natur gyfalaf sy'n eiddo i'r parti ar y dyddiad y gwneir y cais i ddileu'r ffi, oni chaiff ei drin fel incwm gan y Gorchymyn, neu fe'i diystyrir fel cyfalaf gwario a eithrir”*

117. Pennwyd y diffiniad yn fras i sicrhau bod y cymorth ariannol a ddarperir gan gynllun HwF yn cael ei dargedu'n briodol at y rhai na fyddent fel arall yn gallu cael mynediad at gyfiawnder. Fel y nodwyd yn ymgynghoriad 2013, os oes gan ymgeisydd gyfalaf gwario, dylai ei ddefnyddio i dalu ei ffioedd. Mae'r cynllun presennol wedyn yn cyfyngu ar ehangder y diffiniad hwn drwy restr o ddiystyriadau cyfalaf (gweler y rhestr lawn o dan baragraff 2525 ym Mhennod 1).
118. Mae cwmpas eang yr hyn sy'n gymwys fel cyfalaf gwario yn golygu y dylai eitemau fel ffonau symudol gael eu prisio at ddibenion y prawf cyfalaf. I'r graddau nad ydynt yn cael eu diystyru, mae llawer o eitemau eraill o eiddo personol hefyd yn gynwysedig yn y diffiniad cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n amlwg ei bod yn amhriodol ac yn rhy feichus gofyn i geiswyr gyfrifo gwerth pob adnodd cyfalaf sydd ganddynt (yn amodol ar ddiystyriadau). Byddai hefyd yn afresymol disgwyl neu ofyn i geiswyr werthu rhai eitemau o eiddo personol—megis modrwyau priodas neu ffonau symudol—i dalu am eu ffioedd llys neu dribiwnlys. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod y cynllun HwF yn dileu ffioedd unigol.
119. Rydym felly'n cynnig diwygio'r diffiniad o gyfalaf gwario i gynilion a buddsoddiadau'r ceisydd (a lle bo'n berthnasol, eu partner) gan gynnwys, heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- bondiau
- cyfandaliadau
- stociau a chyfranddaliadau
- gwerth ail gartrefi
- arian neu eiddo y tu allan i'r DU

120. Mae ein diffiniad arfaethedig yn symlach na'r fersiwn bresennol i geiswyr ei ddeall ac yn llai beichus i gydymffurfio ag ef. Bydd hefyd yn alinio'r diffiniad yn well â'r canllawiau presennol a ddarperir i geiswyr, gan gynnwys ar ffurflen gais HwF sy'n gofyn i geiswyr am eu 'cynilion a buddsoddiadau'.
121. Yn gyffredinol, mae ein diffiniad arfaethedig yn gyson â'r amcan o weithredu system syml i ymgeiswyr ei deall ac i GLITEM ei gweinyddu.

**Cwestiwn 16:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r diffiniad o gyfalaf gwario i olygu 'cynilion a buddsoddiadau' gyda rhestr anghyflawn o enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys fel y nodir ym mharagraff 119? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## Y trothwy cyfalaf is

122. Fel y manylir ym Mhennod 1, oni bai bod y ceisydd neu ei bartner yn 61 oed neu hŷn, rhaid iddynt fod â chyfalaf gwario o lai na £3,000 i barhau'n gymwys i gael dileu ffioedd. Dyma'r 'trothwy cyfalaf is' presennol, a rhan gyntaf y prawf cyfalaf y mae'n rhaid i ymgeiswyr ei basio er mwyn symud ymlaen drwy'r cynllun HwF.
123. Mae angen i'r trothwy gynnal cydbwysedd teg rhwng hidlo unigolion sydd â chyfalaf gwario sylweddol o'r cynllun a chynorthwyo'r rheini sydd â chyfalaf cyfyngedig. Y man cychwyn yw na ddylai cymorth ariannol drwy'r cynllun HwF gael ei gyfeirio at ymgeiswyr sydd â lefelau sylweddol o gynilion neu asedau cyfalaf. Pan fydd gan ymgeiswyr fynediad at gyfalaf gwario sylweddol, credwn ei bod yn iawn mai dyma'r cyfle cyntaf iddynt dalu unrhyw ffioedd cyn ceisio arian cyhoeddus.
124. O ran pennu lefel resymol ar gyfer trothwy cyfalaf is, y rheol gyffredinol yw y dylai fod gan unigolion dri mis o wariant hanfodol ar gael mewn cynilion i ganiatáu i aelwydydd dalu am gostau annisgwyl am gyfnod o ddiweithdra. Ystyrir bod hyn yn addas oherwydd ei fod yn rhoi amser rhesymol i unigolion addasu i newid yn eu hamgylchiadau ariannol – er enghraifft, drwy ddod o hyd i swydd newydd.
125. Lluniwyd y trothwy cyfalaf is cyfredol i gyd-fynd â'r egwyddor hon. Pan gyflwynwyd cynllun HwF yn 2013, y trothwy incwm misol gros safonol ar gyfer ceisydd sengl oedd £1,085. Felly, gan gymhwyso lluosydd o 3, pennwyd y trothwy cyfalaf is ar dalgryniad o £3,000. Tri mis o wariant hefyd oedd y rhesymeg sylfaenol dros osod y trothwy



cyfalaf is newydd yn yr MTR Cymorth Cyfreithiol, yn seiliedig ar gyngor gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS).<sup>15</sup>

126. Er y bydd amgylchiadau ariannol pob unigolyn yn wahanol, rydym o'r farn bod gosod y trothwy cyfalaf is ar dri mis o wariant yn parhau i fod yn sail resymegol gadarn. Gan gyfrif am y cynnydd arfaethedig i'r trothwy incwm i £1,420, rydym yn cynnig diweddaru'r trothwy cyfalaf is fel a ganlyn:

Trothwy incwm misol gros arfaethedig ar gyfer ceisydd HwF sengl	Lluosydd	Y trothwy cyfalaf is arfaethedig
£1,420	x 3	£4,250 <sup>16</sup>

127. Drwy ddiweddaru'r trothwy cyfalaf is i fod yn fwy hael ac yn unol â realiti economaidd heddiw, bydd ein cynnig yn gwella mynediad at gyfiawnder.
128. Ar ôl i geisydd basio'r prawf trothwy cyfalaf is, nodwn fod system band trothwy cyfalaf HwF yn darparu dull gweithredu hyblyg drwy gymhwyso trothwy uwch i unigolion sy'n wynebu ffioedd uwch.

### Diweddariad i'r trothwy cyfalaf is: enghraifft ymarferol

Mae Lin yn 40 oed. Mae ganddo gyfalaf gwario o **£3,500**. Y ffi yw £150.

**Cynllun cyfredol:** Ar gyfer ffioedd sy'n costio £1,000 neu lai, y trothwy cyfalaf sy'n berthnasol yw £3,000. Mae gan Lin fwy o gyfalaf gwario na £3,000. Mae'n methu'r prawf trothwy cyfalaf ac nid yw'n gymwys i gael dileu'r ffi.

**O dan ein diweddariad arfaethedig i'r trothwy:** Ar gyfer ffioedd sy'n costio £1,420 neu lai, y trothwy cyfalaf fyddai'n berthnasol fyddai £4,250. Mae gan Lin **lai** o gyfalaf gwario na £4,250. **Mae'n pasio'r prawf trothwy cyfalaf ac yn dal yn gymwys i gael dileu'r ffi.**

**Cwestiwn 17:** A ydych yn cytuno â'n cynnig i gynnal yr egwyddor o ddefnyddio gwariant tri mis ar gyfer pennu'r trothwy cyfalaf is, ac yn unol â hynny i godi'r trothwy cyfalaf is i £4,250? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

<sup>15</sup>Corff anadrannol gweithredol a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n darparu cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd ar reolaeth ariannol.

<sup>16</sup> Talgrynwyd i'r £50 agosaf.

## Y system band trothwy cyfalaf

129. Rydym yn cynnig disodli'r system deg band bresennol (gweler Pennod 1) gyda strwythur tri band syml fel a ganlyn:

Gwerth ffi'r llys neu'r tribiwnlys	Trothwy cyfalaf
Hyd at £1,420	£4,250
£1,421 - £5,000	3x y ffi a godir
£5,001 neu fwy	£16,000

130. Gall maint ffi'r llys neu'r tribiwnlys amrywio'n fawr gan ddibynnu ar yr awdurdodaeth a'r math o wasanaeth y mae ceisydd yn ceisio'i gael. Er enghraifft, gall Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambwr Mewnfudo a Lloches) benderfynu ar apêl unigolyn am ffi o £80. Mewn cyferbyniad, hyd yn oed cyn i achos ddechrau yn y llys, gall cychwyn hawliad arian sifil yn y Llys Sirol neu'r Uchel Lys amrywio o £35 i £10,000 yn dibynnu ar werth yr hawliad.
131. Cyflwynwyd y system band trothwy cyfalaf i gyfrif am yr ystod eang o ffioedd drwy roi mwy o ystyriaeth i geiswyr sy'n wynebu ffioedd uwch. Mae hyn yn sicrhau system deg drwy gael prawf cymesur a mwy hael yn hytrach na dilyn dull 'un ateb i bawb' pendant. Mae gweithredu system raddol hefyd yn lleihau 'ymylon dibyn' i ymgeiswyr ar ochr 'anghywir' band penodol.
132. Am y rhesymau hynny, ar sail ein hadolygiad o'r cynllun HwF presennol, rydym o'r farn bod system drothwy bandog yn parhau i fod yn ffordd briodol o gefnogi unigolion sydd â modd ariannol cyfyngedig.
133. Fodd bynnag, rydym yn cynnig diwygio'r strwythur gyda'r bwriad o:
- **Resymoli'r system fandiau fel bod y codiadau trothwy yn defnyddio lluosydd cyson:** Mae'r system deg band bresennol yn defnyddio dau lluosydd gwahanol wrth i'r ffi gynyddu. Ar gyfer ffioedd hyd at £2,330, y trothwy yw 3x y ffi. Ar gyfer ffioedd o £2,331 i fyny, y trothwy yw 2x y ffi – hyd at uchafswm y trothwy cyfalaf o £16,000. I'r gwrthwyneb, mae ein cynnig yn cyd-fynd â chanllawiau MaPS y dylai unigolion fel arfer fod â gwerth tri mis o wariant mewn cynilion drwy gymhwyso lluosydd 3x at ffioedd – hyd at uchafswm y trothwy cyfalaf o £16,000. Tra bod y dull hwn yn parhau i leihau 'ymylon dibyn' ar gyfer ceiswyr, bydd yn cyflwyno system fand clir a chyson.
  - **Symleiddio'r system bandiau:** Drwy gael lluosyddion gwahanol ar gyfer gwahanol lefelau ffioedd a deg band ar wahân, nid yw'n hawdd dilyn y system bresennol. Ochr yn ochr â defnyddio rhesymeg gyson, mae ein

cynnig yn darparu strwythur syml a fydd o fudd ymarferol i ymgeiswyr a GLITEM.

## **Newid arfaethedig i'r system bandiau trothwy cyfalaf: enghreifftiau ymarferol**

### **Enghraifft 1**

Mae Natasha yn 40 oed. Mae ganddi gyfalaf gwario o £8,100 a'r ffi sy'n daladwy yw £3,500.

**O dan y cynllun presennol:** Ar gyfer ffioedd sy'n costio rhwng £2,331 a £4,000, y trothwy cyfalaf sy'n berthnasol yw £8,000. Gan fod cyfalaf gwario Natasha **uwchlaw'r** trothwy hwn, **mae'n methu'r prawf cyfalaf ac nid yw'n gymwys i gael dileu'r ffi.**

**O dan ein system bandiau trothwy cyfalaf arfaethedig:** Y trothwy cyfalaf sy'n berthnasol yw £10,500 (3x swm y ffi o £3,500). Mae cyfalaf gwario Natasha **o dan** y trothwy hwn felly **mae'n pasio'r prawf trothwy cyfalaf ac efallai y bydd yn gymwys i gael dileu'r ffi yn dibynnu ar lefel ei hincwm.**

### **Enghraifft 2**

Mae Bruce yn 20 oed. Mae ganddo gyfalaf gwario o £6,900 a'r ffi sy'n daladwy yw £2,200.

**O dan y cynllun presennol:** Ar gyfer ffioedd sy'n costio rhwng £2,001 a £2,330, y trothwy cyfalaf sy'n berthnasol yw £7,000. Gan fod cyfalaf gwario Bruce **uwchlaw'r** trothwy hwn, **mae'n methu'r prawf cyfalaf ac nid yw'n gymwys i gael dileu'r ffi.**

**O dan ein cynnig i symleiddio'r system band trothwy cyfalaf:** Y trothwy cyfalaf sy'n berthnasol yw £6,600 (3x swm y ffi o £2,200). Mae cyfalaf gwario Bruce **o dan** y trothwy hwn felly **mae'n pasio'r prawf trothwy cyfalaf ac efallai y bydd yn gymwys i gael dileu'r ffi yn dibynnu ar lefel ei incwm.**

**Cwestiwn 18:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddisodli'r system trothwy deg band presennol â strwythur tri band syml fel y nodir ym mharagraff 129? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## Y cap oedran

134. Ar hyn o bryd, pan fo ceisydd neu ei bartner yn 61 oed neu drosodd, mae trothwy cyfalaf safonol o £16,000 yn gymwys. Mae hyn yn wir beth bynnag fo maint ffi'r llys neu'r tribiwnlys. Yr enw ar y polisi hwn yw'r 'cap oedran'.
135. Rydym yn cynnig cynyddu'r cap oedran o 61 i **66 oed**. Petai'n cael ei roi ar waith, byddai hyn yn golygu mai dim ond ceiswyr (neu geiswyr â phartneriaid) sy'n 66 oed neu'n hŷn fyddai'n gymwys ar gyfer y trothwy cyfalaf o £16,000. Byddai ymgeiswyr rhwng 61 a 65 oed (cynhwysol) yn ddarostyngedig i'r trothwy cyfalaf is safonol o £4,250.
136. Cafodd y cap oedran ei ddylunio fel rhan o gynllun HwF i helpu unigolion dros oedran pensiwn y wladwriaeth, i gydnabod y ffaith bod pobl hŷn oedran ymddeol neu'n hŷn yn gyffredinol wedi ymddeol a'u bod felly'n ei chael yn anoddach adnewyddu cyfalaf. Adeg ei gyflwyno ym mis Hydref 2013, pennwyd y cap oedran yn 61 i gyd-fynd ag oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer merched.
137. Fodd bynnag, bu newidiadau mawr i oedran pensiwn y wladwriaeth ers cyflwyno cynllun HwF yn 2013 sy'n golygu bod y cap oedran wedi dyddio. Yn gyntaf, nid yw'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau mewn oedrannau pensiwn yn bodoli mwyach. Yn ail, mae pensiwn y wladwriaeth ar gyfer unrhyw ryw yn 66 ar hyn o bryd. O'r herwydd, mae ein cynnig yn ceisio diweddarau'r cap oedran drwy ei alinio ag oedran pensiwn y wladwriaeth heddiw.

## Newid arfaethedig i'r cap oedran: enghreifftiau ymarferol

### Enghraifft 1

Mae Evelyn yn 70 oed. Mae ganddi gyfalaf gwario o £10,000. Y ffi yw £3,000.

**O dan y cynllun presennol:** Gan fod Evelyn yn hŷn na 61, y trothwy cyfalaf sy'n berthnasol yw £16,000. Mae ei chyfalaf gwario **o dan** y trothwy hwn felly **mae'n pasio'r prawf trothwy cyfalaf ac efallai y bydd yn gymwys** i gael dileu'r ffi yn dibynnu ar lefel ei hincwm.

**O dan ein cynnig i gynyddu'r cap oedran o 61 i 66 oed:** Gan fod Evelyn yn hŷn na 66, y trothwy cyfalaf sy'n berthnasol o hyd yw £16,000. Mae ei chyfalaf gwario **o dan** y trothwy hwn felly **mae'n pasio'r prawf trothwy cyfalaf ac efallai y bydd yn gymwys** i gael dileu'r ffi yn dibynnu ar lefel ei hincwm.

### Enghraifft 2

Mae Joy yn 65 oed. Mae ganddi gyfalaf gwario o £10,000. Y ffi yw £3,000.

**O dan y cynllun presennol:** Gan fod Joy yn hŷn na 61, y trothwy cyfalaf sy'n berthnasol yw £16,000. Mae ei chyfalaf gwario **o dan** y trothwy hwn felly **mae'n pasio'r prawf trothwy cyfalaf ac efallai y bydd yn gymwys** i gael dileu'r ffi yn dibynnu ar lefel ei hincwm.

**O dan ein cynnig i gynyddu'r cap oedran o 61 i 66 oed:** Gan fod Joy yn iau na 66, mae hi'n ddarostyngedig i'r un trothwyon cyfalaf â phob ceisydd arall. Y ffi yw £3,000 felly'r trothwy cyfalaf sy'n berthnasol yma yw £9,000. Gan fod cyfalaf gwario Joy **uwchlaw'r** trothwy hwn, **mae'n methu'r prawf cyfalaf ac nid yw'n gymwys** i gael dileu'r ffi.

**Cwestiwn 19:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gynyddu'r terfyn oedran i gyd-fynd ag oedran pensiwn y wladwriaeth ar hyn o bryd, sef 66? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## Diystyriadau cyfalaf

138. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 1, mae rhai mathau o gyfalaf sydd wedi'u heithrio o'r categori 'cyfalaf gwario' ac ni fyddant yn cael eu hasesu gan gynllun HwF. Mae'r rhestr gyfredol o ddiystyriadau cyfalaf wedi'i nodi ym mharagraff 2525uchod.

139. Y rhesymeg y tu ôl i ddiystyriadau cyfalaf yw eithrio adnoddau cyfalaf y mae eu hangen ar geisydd i gynnal safon byw dderbyniol. O'r herwydd, mae eitemau cyfalaf a ddiystyrir yn perthyn yn fras i bedwar categori:
- eiddo sy'n ofynnol i gynnal safon byw resymol (er enghraifft, prif annedd ceisydd neu gerbyd a ddefnyddir ar gyfer cludiant modur)
  - eiddo sydd ei angen at ddibenion gwaith (er enghraifft, offer masnachu)
  - hawliau a ddarperir at ddiben penodol (er enghraifft, benthyciadau myfyrwyr neu fonws dychwelyd i waith ceisiwr gwaith)
  - hawliau a geir o ganlyniad i iawndal neu fath o niwed/colled difrifol (er enghraifft, taliadau a wneir yn unol â hawliadau o ganlyniad i anaf personol neu esgeulustod meddygol)
140. Rydym yn cynnig tri newid i'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf.

### **Diystyriadau cyfalaf, cynnig 1: tynnu eitemau oddi ar y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf**

141. Gan gymryd bod y diffiniad o 'gyfalaf gwario' yn cael ei ddiwygio fel y nodir uchod ym mharagraff 119119, rydym yn cynnig dileu'r eitemau canlynol o'r rhestr gyfredol o ddiystyriadau cyfalaf:
- dodrefn tŷ ac eiddo'r brif annedd neu'r unig annedd a feddiannir gan y parti
  - eitemau o ddillad personol
  - offer a chyfarpar masnach, gan gynnwys cerbydau a ddefnyddir at ddibenion busnes
142. Rydym yn cynnig hyn ar y sail na fyddai'r eitemau hyn yn dod o fewn categori'r diffiniad cyfalaf gwario newydd o 'arbedion a buddsoddiadau' ac felly na fyddai angen eu diystyru. Bydd dileu'r tair eitem o'r rhestr felly'n helpu i symleiddio a lliflinio'r cynllun.
143. Rydym hefyd wedi ystyried a ddylid dileu'r eitem 'eiddo sy'n brif annedd neu'r unig annedd sy'n cael ei meddiannu gan barti' sydd ar hyn o bryd ar y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf. Fodd bynnag, er mwyn darparu arweiniad clir i ymgeiswyr a GLITEM, rydym yn cynnig cadw'r eitem hon yn y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf. Bydd hyn yn osgoi unrhyw ddriswch posibl ynghylch a allai prif neu unig annedd person hefyd fod yn 'fuddsoddiad' at ddibenion cais HwF.

**Cwestiwn 20:** Os caiff y diffiniad o gyfalaf gwario ei ddiwygio fel sy'n cael ei gynnig o dan baragraff 120 uchod, a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddiweddarau'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf er mwyn dileu'r eitemau canlynol?

- dodrefn tŷ ac eiddo'r brif annedd neu'r unig annedd a feddiannir gan y parti
- eitemau o ddillad personol
- offer a chyfarpar masnach, gan gynnwys cerbydau a ddefnyddir at ddibenion busnes

Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

### **Diystyriadau cyfalaf, cynnig 2: ychwanegu eitemau i'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf**

144. Ar wahân i dri chategori o iawndal (gweler paragraff 2525 Pennod 1), nid yw cynllun cyfredol HwF yn diystyru taliadau o gynlluniau iawndal yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn cyferbynnu â'r prawf modd cymorth cyfreithiol sifil sydd ar hyn o bryd yn diystyru taliadau a wnaed yn unol â'r Cynllun Cymorth Gwaed Heintus ac â phobl sydd wedi cael diagnosis o glefyd Creutzfeldt-Jakob (vCJD).<sup>17</sup> Yn yr un modd, mae'r cynllun Credyd Cynhwysol yn diystyru iawndal a delir yn unol â diagnosis vCJD, yn ogystal â thaliadau a wneir o Gronfa Elusennol Cymorth Bomio Llundain a Chronfa Argyfwng We Love Manchester (ymysg eraill).
145. Y rhesymeg dros ddiystyru'r taliadau ychwanegol hyn yw: maent yn dod o fewn categori'r taliadau a wneir yn benodol i ddarparu ar gyfer personau sydd wedi dioddef rhyw fath o niwed personol (nad yw'n ariannol). O'r herwydd, byddai eu rhoi mewn cyfrifiadau ar gyfer cynlluniau fel cymorth cyfreithiol neu Gredyd Cynhwysol yn amhriodol. Er enghraifft, ni ddylid disgwyl i unigolyn sydd wedi cael cyfandaliad drwy Gynllun Iawndal Windrush am niwed personol a dioddefaint ei drin fel cyfalaf gwario sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyfreithiol. Yn yr un modd, ni ddylid ei gynnwys mewn asesiad i gyfrifo eu cymhwysedd ar gyfer taliadau Credyd Cynhwysol.
146. Wrth asesu'r rhestr gyfredol o ddiystyriadau cyfalaf o dan gynllun HwF, rydym o'r farn y dylai'r un rhesymeg fod yn berthnasol yma hefyd. Pan fydd rhywun wedi derbyn taliad i wneud iawn am y niwed personol a ddioddefwyd, ni ddylai fod yn ofynnol iddo ddefnyddio'r taliadau hynny i dalu ffi i'r llys neu'r tribiwnlys.

<sup>17</sup>Yn ogystal â llawer o gynlluniau eraill ar sail ddewisol.

147. O'r herwydd, rydym yn cynnig cysoni cynllun HwF â chynlluniau prawf modd eraill y llywodraeth, yn ogystal â chysoni'r sefyllfa â'r MTR Cymorth Cyfreithiol a oedd yn cynnwys cynnig tebyg, drwy ychwanegu'r taliadau a'r cynlluniau iawndal canlynol at y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf:<sup>18</sup>

- Cynllun iawndal y Lluoedd Arfog
- Taliadau iawndal yn ymwneud â thân Tŵr Grenfell
- Taliadau iawndal sy'n ymwneud â Windrush
- Cynllun Gwneud lawn ynghylch Cartrefi Plant Lambeth
- Taliadau Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain
- Cynllun Setlo Cam-drin Corfforol Canolfan Gadw Medomsley
- Cynllun iawndal Camweinyddu Cyfiawnder
- Taliadau Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol
- Taliadau o'r Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintus
- Taliadau sy'n ymwneud â chladdediggaeth, llafur gorfodol, anaf neu golli plentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd
- Cynllun Gwneud lawn Cymrodoriaeth Iesu
- Iawndal Taliad Niwed Trwy Frechiad
- Cynllun iawndal sy'n gysylltiedig â Chlefyd Amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob
- Cynllun iawndal Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor
- Taliadau Cronfa Argyfwng We Love Manchester

**Cwestiwn 21:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf i gynnwys y rhestr o gynlluniau talu ac iawndal o dan baragraff 147? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

<sup>18</sup>Noder: yn wahanol i gynllun HwF lle mae'r holl ddiystyriadau cyfalaf i bob pwrpas yn orfodol, mae cynnig MTR Cymorth Cyfreithiol ar gyfer taliadau diystyru cyfalaf ychwanegol, yn dibynnu ar eu math, naill ai'n orfodol neu'n ddewisol.



**Cwestiwn 22:** A oes taliadau eraill y dylid eu hychwanegu at y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf ochr yn ochr â'r taliadau ychwanegol a gynigir o dan baragraff 147? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhwch resymau dros eich ateb.147

### Diystyriadau cyfalaf, cynnig 3: 'terfynau amser' cyfalaf

148. Fel y nodir o dan baragraff 2525 Pennod 1, mae'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf yn cynnwys taliadau sy'n deillio o rai hawliadau cyfreithiol neu gynlluniau iawndal, yn benodol:
- taliad a wneir o ganlyniad i ddyfarniad o ddiswyddo annheg gan lys neu dribiwnlys, neu drwy setlo hawliad am ddiswyddo annheg
  - unrhyw iawndal a delir o ganlyniad i ddyfarniad o esgeulustod meddygol neu mewn perthynas ag unrhyw anaf personol gan lys, neu drwy setlo hawliad am esgeulustod meddygol neu anaf personol
  - unrhyw daliadau a wneir o dan y cynllun iawndal am anafiadau troseddol
149. Ar ben hynny, rydym yn cynnig ychwanegu taliadau sydd wedi'u rhestru o dan baragraff 147147 uchod at y rhestr bresennol o ddiystyriadau cyfalaf.
150. Fel y nodwyd uchod, mae diystyru'r mathau hyn o daliadau wrth gynnal prawf modd yn gyffredin ar draws y llywodraeth. Er enghraifft, mae symiau a ddyfernir i berson o ganlyniad i anaf personol yn cael eu diystyru o brofion modd Credyd Cynhwysol, a gellir diystyru taliadau a wneir o dan y cynlluniau iawndal anafiadau troseddol o dan y prawf modd Cymorth Cyfreithiol sifil.<sup>19</sup>
151. Fodd bynnag, yn wahanol i gynlluniau prawf modd eraill y llywodraeth sy'n cyfyngu ar y cyfnod y mae'r mathau hyn o gyfalaf yn parhau i gael eu diystyru, nid yw cynllun HwF yn darparu unrhyw 'gyfyngiad amser' o'r fath. Er enghraifft, ar gyfer Credyd Cynhwysol, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn diystyru taliadau anaf personol a delir mewn taliad unswm am gyfnod o 12 mis o ddyddiad y taliad. Er nad oes gan y prawf modd cymorth cyfreithiol sifil derfyn amser tebyg ar hyn o bryd, mae'r MTR Cymorth Cyfreithiol wedi cynnig y dylai ôl-daliadau cynhaliueth plant a dderbynnir hyd at 24 mis cyn cais gael eu diystyru fel arfer.<sup>20</sup>
152. Mae absenoldeb terfyn amser ar gyfer diystyriadau cyfalaf yng nghynllun HwF yn arwain at gymhlethdod a dryswch diangen. Yn gyntaf, mae'n cadw'n agored y ddadl y dylid diystyru taliadau o'r fath am oes y ceisydd (o leiaf). Mae hefyd yn arwain at ddadleuon posibl y dylid parhau i ddiystyru taliadau o'r fath hyd yn oed

<sup>19</sup>Diystyriadau dewisol yw'r rhain, yn hytrach na diystyriadau gorfodol.

<sup>20</sup>Fel gyda throednodyn 10, mae ôl-daliadau cynhaliueth plant yn cael eu cynnig fel diystyriad dewisol.

os ydynt wedi cael eu defnyddio i brynu cyfalaf arall, er enghraifft ar ffurf ail gartref neu fuddsoddiadau ecwiti.

153. Rydym felly'n cynnig egluro'r sefyllfa drwy gyflwyno terfyn amser o 24 mis ar gyfer y taliadau hyn sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf, sef:

<p><b>Taliadau iawndal presennol a ddiystyrir dan gynllun HwF i fod yn ddarostyngedig i'r terfyn amser arfaethedig o 24 mis:</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Taliad a wneir o ganlyniad i ddyfarniad o ddiswyddo annheg gan lys neu dribiwnlys, neu drwy setlo hawliad am ddiswyddo annheg</li> <li>• Unrhyw iawndal a delir o ganlyniad i ddyfarniad o esgeulustod meddygol neu mewn perthynas ag unrhyw anaf personol gan lys, neu drwy setlo hawliad am esgeulustod meddygol neu anaf personol</li> <li>• Unrhyw daliadau a wneir o dan y cynllun iawndal am anafiadau troseddol.</li> </ul>
<p><b>Os caiff y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf ei hymestyn yn unol â'n 'diystyriadau cyfalaf, cynnig 2' uchod, bydd taliadau iawndal ychwanegol yn amodol ar y terfyn amser arfaethedig o 24 mis:</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun iawndal y Lluoedd Arfog</li> <li>• Taliadau iawndal yn ymwneud â than Tŵr Grenfell</li> <li>• Taliadau iawndal sy'n ymwneud â Windrush</li> <li>• Cynllun Gwneud iawn ynghylch Cartrefi Plant Lambeth</li> <li>• Taliadau Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain</li> <li>• Cynllun Setlo Cam-drin Corfforol Canolfan Gadw Medomsley</li> <li>• Cynllun iawndal Camweinyddu Cyfiawnder</li> <li>• Taliadau Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol</li> <li>• Taliadau o'r Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintus</li> <li>• Taliadau sy'n ymwneud â chladdedigaeth, llafur gorfodol, anaf neu golli plentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd</li> <li>• Cynllun Gwneud iawn Cymrodoriaeth Iesu</li> <li>• Iawndal Taliad Niwed Trwy Frechiad</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cynllun iawndal sy'n gysylltiedig â Chlefyd Amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob</li><li>• Cynllun iawndal Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor</li><li>• Taliadau Cronfa Argyfwng We Love Manchester</li></ul>
--	--

154. Byddai pob taliad iawndal yn cael ei 'eithrio o gyfalaf gwario' at ddibenion cynllun HwF am 24 mis o'r dyddiad y daw i law.

155. Mae'r terfyn amser o 24 mis yn gyson â'r cynnig MTR Cymorth Cyfreithiol ynghylch ôl-dalu cynhaliaeth plant (gan nodi nad yw'r cynllun HwF yn cynnwys diystyru yn ôl disgrisiwn). Credwn hefyd fod 24 mis yn amser rhesymol i ymgeiswyr addasu eu cyllidebau i gyfrif am y cynnydd mewn gwariant ar aelwydydd a achosir gan niwed personol a ddioddefir. Mae'n debygol y bydd unrhyw gostau sefydlog sylweddol ac uniongyrchol a achosir gan y niwed wedi mynd heibio erbyn y cyfnod hwn. Ar ôl yr amser hwn, dylai ymgeiswyr fod wedi addasu i batrymau gwariant eu cartref newydd. Felly, ni ddylid diystyru'r eitemau cyfalaf hyn mwyach.

**Cwestiwn 23:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno terfyn amser o 24 mis ar gyfer taliadau iawndal presennol a ddiystyrir dan gynllun HwF ac (os caiff y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf ei hymestyn yn unol â'n cynnig uchod) taliadau ychwanegol arfaethedig – yn unol â'r tabl o dan baragraff 153? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## **RHAN B Y CYNIGION: Y broses ymgeisio**

156. Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer diwygio'r broses ymgeisio:

- Diwygio'r datganiad a'r datganiad gwirionedd i ganiatáu i gyfeillion cyfreitha a chynrychiolwyr cyfreithiol lenwi a llofnodi'r cais ar ran ceiswyr
- Ychwanegu darpariaeth o fewn y Gorchmynion Ffioedd i ddelio â cheisiadau HwF anghyflawn.

## Pennod 6 – Y broses ymgeisio

### Cyflwyniad

157. Drwy ein hadolygiad, nodwyd y meysydd canlynol lle gellir gwella'r broses sy'n ymwneud â chwblhau'r cais Help i Dalu Ffioedd a'i gwneud yn fwy effeithlon:

- Y datganiad a'r datganiad gwirionedd
- Cwblhau ceisiadau HwF

### Datganiad a Datganiad gwirionedd

158. Mae'r datganiad a'r datganiad gwirionedd yn ymddangos ar ddiwedd y cais HwF. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd lofnodi neu gymeradwyo datganiad yn cadarnhau bod y wybodaeth y mae wedi'i darparu yn y cais yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth. Dyma'r geiriad hwnnw:

*Credaf fod fy amgylchiadau ariannol presennol yn golygu y gallai fod gennyf hawl i gael help gyda ffioedd. Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn. Rwy'n deall y gellir dwyn achos troseddol neu sifil yn fy erbyn os wyf wedi rhoi gwybodaeth ffug. Rwyf yn deall os wyf wedi rhoi gwybodaeth ffug neu os nad wyf yn darparu tystiolaeth o'r wybodaeth a roddir yn y ffurflen hon os gofynnir amdani, efallai y bydd fy nghais yn cael ei wrthod ac y bydd y ffi lawn yn daladwy.*

159. Mae'r datganiad wedi'i eirio ar hyn o bryd fel mai dim ond ceiswyr sy'n gallu cadarnhau a llofnodi neu gymeradwyo'r cais HwF. Fel eithriad, pan fydd rhywun yn cael ei gynrychioli gan gyfaill cyfreitha, gall y cyfaill cyfreitha wneud y datganiad a'i lofnodi ar ran y ceisydd. Fodd bynnag, nid yw geiriad y datganiad yn y Gorchmynion Ffioedd yn gwneud hyn yn gwbl glir. Ar wahân i hynny, nid yw'r geiriad presennol yn caniatáu i gynrychiolydd cyfreithiol ceisydd wneud cais ar ei ran. Fel rhan o'n hadolygiad o gynllun HwF, rydym wedi nodi bod y cyfyngiad hwn yn achosi nifer o broblemau i GLITEM ac i geiswyr:

- Mae gan lawer o geiswyr sy'n gwneud cais am HwF gynrychiolaeth gyfreithiol. Gall peidio â chaniatáu i gynrychiolwyr cyfreithiol wneud cais am HwF ar ran eu cleientiaid arwain at oedi diangen wrth wneud ceisiadau. Mae hefyd yn cyfrannu at ragor o geisiadau ôl-weithredol sy'n cymryd mwy o

amser ac sy'n fwy beichus i GLITEM eu prosesu. Mae hyn fel arfer mewn achosion lle nad yw cynrychiolydd cyfreithiol yn gallu cwblhau cais HwF pan fydd yn cyflwyno hawliad neu gais yn ddigon cyflym, fel ei fod yn talu'r ffi pan fydd yn ddyledus ac yn trefnu i'r ceisydd gwblhau cais HwF ôl-weithredol.

- Nid yw'n glir o eiriad y datganiad bod gan gyfeillion cyfreitha hawl i wneud cais ar ran ceiswyr. Rhaid iddynt ddarllen y canllawiau allanol ar wahân i gael eglurhad, sy'n nodi y gallant wneud cais ar ran y ceisydd. Mae'r anghysondeb hwn yn ei gwneud yn ddryslyd i unrhyw un sy'n darllen y ffurflen gan nad yw'n adlewyrchiad cywir o'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithio.
- Mae cyfyngu ar y datganiad a'r datganiad gwirionedd i geiswyr yn anghyson â llawer o ffurflenni llys neu driwlynys eraill, sydd â datganiadau tebyg y gall y ceisydd, y cyfaill cyfreitha neu'r cynrychiolydd cyfreithiol eu cadarnhau a'u llofnodi. Er enghraifft, mae'r ffurflen hawliad sifil 'N1' yn caniatáu i'r hawlydd, cyfaill cyfreitha neu gynrychiolydd cyfreithiol yr hawlydd lenwi a llofnodi'r ffurflen.

160. Am y rhesymau hyn, rydym yn cynnig diwygio'r datganiad a'r datganiad gwirionedd.

## Y cynnig

161. Rydym yn cynnig diwygio'r datganiad a'r datganiad gwirionedd ar gais HwF i ganiatáu'n benodol i gynrychiolwyr cyfreithiol a ffrindiau cyfreitha gadarnhau a llofnodi cais HwF ar ran ceiswyr.

162. Yn yr un modd â datganiadau a datganiadau gwirionedd tebyg eraill y gall cynrychiolwyr cyfreithiol eu llofnodi, byddai'n rhan o'u rhwymedigaethau proffesiynol i fod yn fodlon bod y datganiad y maent yn ei wneud ar ran eu cleient (y ceisydd am HwF) yn gywir.

163. Bydd ein cynnig yn cyflawni'r amcanion allweddol o ddarparu gwerth am arian trethdalwyr ochr yn ochr â gwneud y broses yn syml i ymgeiswyr a staff GLITEM yn y ffyrdd canlynol:

- Bydd caniatáu i gynrychiolwyr cyfreithiol wneud ceisiadau HwF yn helpu i wella eu hansawdd cyffredinol. Y rheswm am hyn yw y bydd gan gynrychiolwyr cyfreithiol brofiad o gwblhau'r ceisiadau i'r safon angenrheidiol er mwyn i GLITEM brosesu'n ddi-oed. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i leihau'r pwysau o ran amser ac adnoddau ar GLITEM.

- Bydd caniatáu i gynrychiolwyr cyfreithiol wneud ceisiadau HwF yn helpu i hwyluso a byrhau'r broses ar gyfer ceiswyr gan y byddant yn gallu dibynnu ar eu cynrychiolwyr cyfreithiol, heb fod angen proses hir yn ôl ac ymlaen. Bydd hefyd yn lleihau nifer y ceisiadau ôl-weithredol beichus sy'n cael eu derbyn gan GLITEM gan y bydd cynrychiolwyr cyfreithiol yn gallu gwneud cais am HwF ar ran eu cleient ar yr un pryd â gwneud hawliad neu gais pan fydd y ffi'n ddyledus.
- Bydd ein cynnig yn ei gwneud yn glir ar y cais HwF ei hun bod gan gyfeillion cyfreitha hawl i wneud cais ar ran ceisydd, gan atal dryswch posibl adeg gwneud cais.
- Bydd diwygio'r datganiad a'r datganiad gwirionedd yn sicrhau bod y cynllun HwF yn cyd-fynd â ffurflenni llys a thribiwnlys eraill y gellir eu llenwi a'u llofnodi eisoes gan gyfeillion cyfreitha a chynrychiolwyr cyfreithiol.

**Cwestiwn 24:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r datganiad a'r datganiad gwirionedd yn y cais HwF i ganiatáu'n benodol i gyfeillion cyfreitha a chynrychiolwyr cyfreithiol llenwi a llofnodi ar ran yr ymgeiswyr? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## Cwblhau ceisiadau

164. Mae GLITEM yn adrodd, mewn nifer o achosion, nad yw'r darnau allweddol o wybodaeth y gofynnir amdanynt yn y cais HwF sy'n hanfodol i brosesu'r cais yn cael eu darparu gan geiswyr yn brydlon. Fel arfer, mae hyn yn digwydd pan fydd ceiswyr yn cwblhau ceisiadau HwF papur ac mae'r wybodaeth sydd ar goll yn cynnwys:

- Cyfeiriad llawn y ceisydd gan gynnwys eu cod post
- Rhif Yswiriant Gwladol y ceisydd (angenrheidiol i GLITEM alluogi archwiliadau gydag Adrannau eraill y Llywodraeth at ddibenion y prawf incwm)
- Llofnod yr ymgeisydd ar ffurflenni papur
- Tystiolaeth ategol o'r data ariannol a ddarparwyd ar y cais yn brydlon pan ofynnir amdano

165. Lle mae ceiswyr ar hyn o bryd yn methu neu'n gwrthod cydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth sydd ar goll yn brydlon, yn aml nid yw GLITEM yn gallu gorfodi cydymffurfiaeth.
166. Mae'r her weithredol yn bodoli oherwydd diffyg mecanwaith ffurfiol o fewn y Gorchmynion Ffioedd sy'n nodi gofynion clir ar gyfer cwblhau'r cais HwF, gyda mecanwaith gorfodi cyfatebol i sicrhau cydymffurfiaeth. Yr unig ofyniad yw bod ymgeiswyr (a) yn nodi'r ffi berthnasol; (b) yn datgan eu cyfalaf gwario; ac (c) yn darparu tystiolaeth ddogfennol o'u hincwm misol gros a nifer y plant. Felly, nid oes gan GLITEM awdurdod i ddatrys materion sy'n ymwneud â cheisiadau anghyflawn a diffyg cydymffurfio.
167. Effaith y sefyllfa bresennol yw cynllun HwF sy'n groes i amcanion adolygiad HwF o ddarparu gwerth am arian trethdalwyr a sicrhau system effeithlon, ar y sail:
- Bod ffurflenni sydd wedi'u llenwi'n anghywir a diffyg cydymffurfio â cheisiadau GLITEM sy'n hanfodol ar gyfer prosesu ceisiadau yn achosi oedi i geiswyr ac i GLITEM sy'n gorfod cyfathrebu, weithiau'n faith, er mwyn datrys problemau.
  - Mae ceisiadau anghyflawn hefyd yn arwain at waith ychwanegol diangen i geiswyr a GLITEM. O ran y ceisydd, bydd gofyn iddynt ail-lenwi eu ffurflen neu ychwanegu rhagor o wybodaeth yn ôl-weithredol. Ar gyfer GLITEM, bydd angen adnoddau ychwanegol i ddod â'r cais i ben, yn enwedig mewn achosion lle mae angen llawer o wybodaeth neu wybodaeth arbennig o gymhleth.
  - Mae diffyg mecanwaith gorfodi ar gyfer cymell ceiswyr i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol ac ymateb i geisiadau o fewn amserlenni penodol yn golygu yn aml nad yw GLITEM yn gallu datrys ceisiadau'n hyderus ac yn effeithlon.

## Y cynnig

168. Rydym yn cynnig ychwanegu darpariaeth yn y Gorchmynion Ffioedd i nodi pan fydd cais i ddileu ffi yn anghyflawn, neu pan fydd angen gwybodaeth ychwanegol, rhaid darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani o fewn y cyfnod a hysbysir yn ysgrifenedig i'r ceisydd. Os na ddarperir y wybodaeth y gofynnir amdani, bydd y cais HwF yn cael ei drin fel cais sy'n cael ei adael.
169. Bydd ein cynnig yn cyflawni'r amcanion allweddol o ddarparu gwerth am arian i drethdalwyr a gwneud y broses yn symlach i ymgeiswyr a GLITEM mewn tair ffordd:



- Bydd yn creu darpariaeth dryloyw a chlr i geiswyr a GLITEM ei dilyn o ddechrau'r broses ymgeisio. Bydd hyn yn helpu i hwyluso'r broses ymgeisio gan y bydd ceiswyr yn gallu cael gafael ar ganllawiau clir ar gwblhau'r cais ac ymateb i geisiadau GLITEM.
- Bydd yn cefnogi defnydd effeithiol o amser ac adnoddau GLITEM wrth wneud penderfyniadau amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ddelio â cheiswyr, ac yn enwedig unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Bydd hyn hefyd yn sicrhau eglurder a chysondeb ar draws GLITEM.
- Bydd yn symleiddio ac yn cyflymu'r broses ymgeisio. Bydd cyflwyno darpariaeth glir ar yr hyn sy'n ofynnol er mwyn i gais fod yn ddilys yn helpu ceiswyr i gyflwyno ceisiadau cyflawn yn y lle cyntaf, gan leihau'r oedi sy'n gysylltiedig â phroses ymgeisio hirfaith er mwyn cael gwybodaeth sydd ar goll.

**Cwestiwn 25:** A ydych yn cytuno â'n cynnig i ychwanegu darpariaeth yn y Gorchmynion Ffioedd i nodi pan fydd cais i ddileu ffi yn anghyflawn, neu pan fydd angen gwybodaeth ychwanegol, rhaid darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani o fewn y cyfnod a hysbysir yn ysgrifenedig i'r ceisydd. Os na ddarperir y wybodaeth y gofynnir amdani, bydd y cais yn cael ei drin fel cais sy'n cael ei adael. Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## RHAN C Y CYNIGION: Gweithredu

170. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yna'n cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ochr yn ochr â manylion llawn ein cynllun Help i Dalu Ffioedd diwygiedig. Byddwn yn ceisio cyhoeddi hyn cyn pen 12 wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.
171. Byddwn wedyn yn paratoi unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i reoliadau, a'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer ceiswyr a GLITEM. Ar yr un pryd, bydd gwaith yn dechrau ar wneud y newidiadau angenrheidiol i system ddigidol HwF.

### Darpariaethau trosiannol

172. Wrth newid i gynllun HwF diwygiedig, rydyn ni wedi nodi'r senarios posibl canlynol a allai godi, ochr yn ochr â chynigion ynghylch sut dylen nhw gael eu trin:
- **Senario 1:** Lle cyflwynwyd cais HwF cyn i'r cynllun diwygiedig ddod i rym ond nad yw wedi cael ei brosesu eto gan GLITEM.<sup>21</sup> Yn yr achos hwn, bydd y cais yn cael ei asesu yn unol â'r rheolau sydd mewn grym adeg cyflwyno'r cais.
  - **Senario 2:** Talodd ceisydd ffi'r llys neu'r tribiwnlys ar ddyddiad **cyn** i'r cynllun diwygiedig HwF ddod i rym ond maent yn gwneud cais ôl-weithredol **ar ôl** i'r cynllun HwF ddod i rym. Bydd y cais am ad-daliad, ar sail cyfalaf ac incwm y ceisydd ar yr adeg y talodd y ffi, yn cael ei asesu yn unol â rheolau'r hen gynllun HwF.

**Cwestiwn 26:** Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i asesu ceiswyr yn ystod y cyfnod pontio fel y nodir yn y senarios uchod? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhwch resymau dros eich ateb.

<sup>21</sup>Ar gyfer ceisiadau digidol, dyma'r dyddiad y bydd yr ymgeisydd yn derbyn ei god digidol. Ar gyfer ceisiadau papur, hwn fyddai'r dyddiad y bydd GLITEM yn derbyn y cais.

# Atodiad A: Siart Ilif y broses cymhwysedd ar gyfer Help i Dalu Ffioedd



## Atodiad B: Datblygu'r trothwy incwm arfaethedig wedi'i ddiweddarau

Mae'r atodiad hwn yn nodi'n llawn:

- Ein methodoleg arfaethedig ar gyfer pennu trothwy incwm diwygiedig
- Ein dull arfaethedig ar gyfer pennu Premiwm Cwpl a Phremiwm Plentyn diwygiedig
- Cymhwyso'r fethodoleg wedi'i diweddarau i set ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019/20, ein ffigurau arfaethedig ar gyfer trothwy incwm i ymgeiswyr sengl, Premiwm Cwpl a Phremiwm i Blant

Defnyddiwyd proses tri cham gennym, gan ddefnyddio data a chanllawiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac OEECD, i ddatblygu ein methodoleg arfaethedig ar gyfer diweddarau'r trothwy incwm a Phremiymau.

### **Cam 1: Cyfrifo gwariant unigolyn ar 5ed deigradd y boblogaeth gan ddefnyddio Arolwg LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol**

Mae arolwg LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn arolwg blynyddol a luniwyd i fesur gwariant cartrefi ar nwyddau a gwasanaethau ledled y DU. Mae'r arolwg hefyd yn casglu data am incwm aelwydydd. Mae tua 6,000 o gartrefi yn y DU yn ymateb i'r LCF bob blwyddyn. Mae'n ofynnol i'r holl ymatebwyr, o bob oed, gadw dyddiadur o wariant am 2 wythnos.

O'r set ddata hon, roeddem wedi canolbwyntio ar gyfanswm gwariant gwirioneddol aelwyd sydd yn y 5ed deigradd o'r dosbarthiad incwm. Mae'r 5ed deigradd yn cynnwys y rheini y byddai incwm eu cartref yn eu gosod 40% i 50% o'r ffordd i fyny'r dosbarthiad incwm. Dewiswyd y dull hwn gennym i sicrhau cysondeb â'r MTR Cymorth Cyfreithiol, a oedd hefyd yn defnyddio dull gweithredu tebyg ar sail ONS.

Mae data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi'r gwariant a wariwyd mewn gwirionedd yn net o dreth a didyniadau (fel Yswiriant Gwladol neu bensynau). Rydym

wedi ychwanegu'r rhain yn ôl er mwyn cael incwm misol gros i'w gymharu â'n trothwy HwF. **Yr incwm misol gros sy'n ofynnol i unigolyn allu fforddio'r hyn y mae person yn y 5ed degradd yn ei wario mewn gwirionedd ar nwyddau a gwasanaethau yw £1,862.**

## **Cam 2: eithrio rhai categorïau o 5ed degradd LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol**

Nid ydym ond wedi eithrio categorïau y byddem yn eu hystyried yn wariant diangen, neu lle y gellid arbed y gwariant go iawn ac nid dim ond ei ohirio. **O'r £1,862, rydym wedi eithrio £443 drwy ddefnyddio'r amodau hyn.** Daeth hyn o'r categorïau canlynol:

- **Diod alcoholig, tybaco a chyffuriau (£53):** nid ydym yn ystyried hyn yn 'wariant angenrheidiol'. Mae'r dyfarniad hwn yn efelychu cynsail hirdymor a ddefnyddir at ddibenion cymhwyster cymorth cyfreithiol troseddol.
- **Taliadau gamblo (£9):** nid ydym yn credu bod gwariant o'r fath yn angenrheidiol.
- **Gwariant sy'n gysylltiedig â gwyliau (£145):** gwyliau pecyn, gwariant ar wyliau, teithio ac yswiriant meddygol. Nid ydym yn credu bod gwariant o'r fath yn angenrheidiol ac felly, gellid ei hepgor neu ei newid am fath arall o brofiad hamdden.
- **Bwytai a gwestai (£122):** o ran bwytai, rydym o'r farn na ellir tybio bod angen pob gwariant. Felly, rydym wedi dilyn yr MTR Cymorth Cyfreithiol drwy ganiatáu dim ond ychydig o wariant ar dai bwyta. Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod ein trothwy'n rhoi digon o lwfans i unigolyn brynu bwyd. Rydym wedi eithrio gwariant ar westai, gan nad ystyrir bod hyn yn wariant angenrheidiol yn unol â dyfarniadau eraill sy'n ymwneud â gwyliau.
- **Trwyddedau, dirwyon a throsglwyddiadau (£2.50):** megis dirwyon moduro a threth stamp. Yn debyg i'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan yr MTR Cymorth Cyfreithiol, rydym o'r farn nad yw gwario yn y maes hwn yn angenrheidiol. Mae treth ffordd hefyd wedi'i chynnwys yn y categori hwn ac nid yw'r elfen hon wedi'i heithrio, gan fod hon yn gost angenrheidiol na ellir ei hystyried ar gyfer ei heithrio.

- **Trosglwyddo arian a chredyd (£5):** fel arian a roddir fel rhodd ariannol, rhoddion i elusen, taliadau llog cardiau credyd. Rydym o'r farn, fel y mae'r MTR Cymorth Cyfreithiol wedi'i gasglu, nad yw gwario yn y maes hwn yn angenrheidiol.
- **Gostyngiad o 33% ar weithgareddau hamdden a diwylliant (£5.6):** mae hyn yn cynnwys ystod eang o wariant, fel gemau, hobïau, sinemâu, anifeiliaid anwes, llyfrau a chyfrifiaduron. Credwn na ddylid eithrio gwariant o'r fath yn ei gyfanrwydd, gan y dylai pobl allu fforddio rhyw lefel o gyfranogiad cymdeithasol a diwylliannol. Fodd bynnag, credwn ei bod yn rhesymol disgwyl i geiswyr leihau rhywfaint ar eu gwariant ar weithgareddau hamdden er mwyn cynilo i dalu ffi. Yn yr achos hwn, rydym wedi rhoi gostyngiad o 33%. Caiff gwyliau pecyn a thaliadau gamblo eu trin ar wahân a chânt eu heithrio'n gyfan gwbl (fel uchod).

Heb gynnwys y mathau hyn o wariant, yr **incwm misol gros y mae ei angen ar unigolyn er mwyn fforddio gwariant rhesymol angenrheidiol unigolyn yn y 5ed degradd o'r dosbarthiad incwm yw £1,420 (wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf).**

### **Cam 3: cynhyrchu 'premiymau' i roi cyfrif am wahanol feintiau aelwydydd, gan ddefnyddio graddfa gyfwerthedd wedi'i addasu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd**

Mae gan aelwydydd gwahanol anghenion gwario gwahanol. Fel arfer, mae gan blentyn anghenion gwariant llai nag oedolyn. Bydd ar ddau oedolyn mewn aelwyd angen llai na dwywaith y gwariant ar aelwyd un oedolyn, gan y gall y ddau unigolyn rannu nwyddau a gwasanaethau ('arbedion maint'). Mae'r cynllun HwF presennol eisoes yn cyfrif am aelwydydd o wahanol feintiau drwy ychwanegu Premiymau ar gyfer aelodau ychwanegol mewn aelwyd.

I gyfrifo'r Premiymau wedi'u diweddarau, rydym wedi defnyddio graddfa cyfwerthedd sydd wedi'i haddasu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Mae Cyfwerthedd yn dechneg economaidd sy'n rhoi pwysoliad cost gwahanol i bob aelod o'r aelwyd. Mae'r raddfa wedi'i haddasu gan yr OECD yn cael ei defnyddio'n eang ledled Ewrop, ac yn y DU mae'n cael ei defnyddio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer ystadegau incwm allweddol aelwydydd. O dan y dull hwn, rhoddir gwerth o 1 i aelwyd oedolyn sengl; rhoddir gwerth 'cyfwerthedd' llai o 0.5 i

bob oedolyn ychwanegol i adlewyrchu arbedion maint. Rhoddir gwerth o 0.3 i blant dan 14 oed, a rhoddir gwerth o 0.5 i blant 14 oed neu hŷn.

Cymhwyso hyn i'n trothwy oedolion arfaethedig o £1,420:

- Cyfrifir y Premiwm Cwpl fel cost oedolyn ychwanegol ( $0.5 \times £1,420 = \mathbf{£710}$ )
- Y Premiwm Plentyn i blant dan 14 oed yw **£425** ( $0.3 \times £1,420$ )
- Y Premiwm Plentyn i blant 14 oed neu hŷn yw **£710** ( $0.5 \times £1,420$ ).

## Atodiad C: Diwygiadau arfaethedig i'r rhestr diystyriadau incwm

Mae'r atodiad hwn yn rhoi dadansoddiad llawn o'r taliadau budd-daliadau y bwriadwn eu cadw, eu dileu neu eu hychwanegu at y rhestr diystyriadau incwm gydag esboniadau ynghylch sut y daethom i'r penderfyniad ar gyfer pob taliad.

### Cadw yn y cynllun

Rydym yn cynnig cadw'r taliadau canlynol yn y rhestr diystyriadau:

1. **Incwm a ddarparwyd at ddibenion talu costau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn LCF (anabledd) y Swyddfa Ystadegau Gwladol:** Nid yw LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhoi cyfrif am y costau ychwanegol sy'n ymwneud ag anabledd. Yn unol â'n rhesymeg, os yw ceisydd yn cael cymorth ariannol yn ymwneud â'r costau ychwanegol oherwydd anabledd, nid ydym yn credu ei bod yn rhesymol disgwyl i'r incwm hwn gael ei ddefnyddio i ariannu taliadau ffioedd. Mae'r sail resymegol hon yn cwmpasu'r manteision canlynol:
  - **Lwfans Gweini:** Ar gyfer pobl o oedran pensiwn y wladwriaeth y mae eu hanabledd yn golygu bod angen rhywun arnynt i'w helpu i ofalu amdanynt. Roedd 1.5 miliwn o hawlwr ym mis Awst 2021. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
  - **Lwfans Anabledd Difrifol:** Ar gyfer pobl dan oedran pensiwn y wladwriaeth na allant weithio oherwydd salwch/anabledd. Disodlodd y budd-dal analluogrwydd yn 2001, fodd bynnag, mae'r rhai sydd eisoes yn hawlio yn parhau i wneud hynny. Roedd 15,000 o hawlwr ym mis Awst 2021. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
  - **Lwfans Gofalwr:** Ar gyfer y rheini sy'n gofalu am rywun o leiaf 35 awr yr wythnos a derbyniodd y person hwnnw fudd-daliadau penodol. Roedd 1.3



miliwn o hawlwyd ym mis Awst 2021. Caiff y budd-dal hwn ei ddiystyru yn y cynllun cymorth cyfreithiol.

- **Lwfans Byw i'r Anabl:** I dalu am y gost ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd. Gellir parhau i wneud hawliadau sy'n ymwneud â phlant ond gellir fe'u disodlwyd fel arall gan Daliad Annibyniaeth Bersonol. Gall y rheini a aned cyn 1948 ac sydd eisoes yn hawlio barhau i wneud hynny. Roedd 1.3 miliwn o hawlwyd ym mis Awst 2021. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
- **Lwfans Gweini Cyson:** I'r rheini sydd angen gofal a sylw dyddiol oherwydd anabledd ac sydd wedi cael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu Bensiwn Anabledd Rhyfel. Nid ydym wedi gallu dod o hyd i nifer y derbynwyr ond rydym yn disgwyl iddo fod yn isel. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
- **Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol:** I'r rheini a gafodd un o'r ddwy gyfradd uchaf o Lwfans Gweini Cyson ac sydd angen gofal a sylw parhaol a pharhaus. Nid ydym wedi gallu dod o hyd i nifer y derbynwyr ond rydym yn disgwyl iddo fod yn isel. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
- **Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol:** I'r rheini a aeth yn sâl neu'n anabl o ganlyniad i ddamwain neu glefyd yn y gwaith ar hyfforddiant cyflogaeth cymeradwy. Wedi'i gyfrifo fel incwm at ddibenion cyfrifo budd-daliadau prawf modd. Roedd 180,000 o hawlwyd ym mis Awst 2021. **Ni** ddiystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
- **Elfennau anabledd ac anabledd difrifol o Gredyd Treth Plant:** Darperir "taliadau ategol" i rieni sydd â phlentyn ag anabledd – mae oddeutu 160,000 o blant yn cael budd-dal. Gan ei fod yn 'daliad ategol', roeddem wedi ystyried a ddylem dynnu hyn oddi ar y rhestr o ddiystyriadau. Ni allem ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod disgwyl i rieni wario'r incwm hwn ar gostau ychwanegol sy'n ymwneud ag anabledd y plentyn. Ni ddiystyrir hwn yn y

cynllun cymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, fe wnaethom benderfynu cadw hyn i mewn ar y sail i) ei fod wedi cael ei ddiystyru dros y naw mlynedd diwethaf; ii) mae'r niferoedd yn gymharol isel ac mae credydau treth i fod i gael eu cynnwys yn y Credyd Cynhwysol erbyn 2024 felly ni fyddai llawer o effaith o ganlyniad i newid.

- **Taliadau o'r Gronfa Byw'n Annibynnol:** Yn cael ei ddarparu i alluogi pobl ag anableddau i fyw'n annibynnol, yn hytrach nag mewn gofal preswyl. Daeth y gronfa hon i ben yn 2015 ond mae taliadau'n dal i gael eu gwneud yn yr Alban a thrwy Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r niferoedd yn hysbys ond disgwylir iddynt fod yn isel. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
- **Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog:** I gefnogi cyn-filwyr gyda'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anafiadau. I'r rhai a anafwyd tra'u bod yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog ar 6 Ebrill 2005 neu ar ôl hynny. Roedd 1,171 o hawlwr ym mis Mawrth 2020. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
- **Pensiwn a delir dan Orchymyn Pensiwn Gwasanaeth y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr 2006:** lawndal dim bai ar gyfer pob un o gyn-aelodau'r lluoedd arfog lle mae salwch, anaf neu farwolaeth wedi cael ei achosi gan wasanaeth rhwng 1914 a 5 Ebrill 2005. Roedd 101,500 o hawlwr ym mis Mawrth 2021. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
- **Taliad Annibyniaeth Bersonol:** I helpu gyda rhai o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â salwch neu anabledd tymor hir. Roedd 2.8 miliwn o hawlwr ym mis Awst 2021. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.

## 2. Incwm a ddarparwyd at ddibenion talu costau penodol nad ydynt yn cael eu cynnwys yn LCF (arall) y Swyddfa Ystadegau Gwladol

- **Taliadau a wneir i gefnogi pobl y mae angen gofal cymdeithasol arnynt:** Gall y rhai sy'n cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol wneud cais

am daliadau uniongyrchol, a fydd yn caniatáu iddynt ddewis a phrynu'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen eu hunain, yn hytrach na'u derbyn gan y Cyngor. Nid ydym wedi gallu dod o hyd i nifer y derbynwyr. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.

- **Taliadau a wneir o'r Gronfa Gymdeithasol:** Cronfa dan arweiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau yw hon sy'n cynnwys ystod eang o daliadau. Darperir y taliadau hyn ar gyfer dibenion penodol – megis cost angladdau, benthyciadau argyfwng, geni plant, a thywydd oer. Mae'n ymddangos bod cyfanswm y niferoedd yn y 100,000oedd uchel. Diystyrir y taliadau hyn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
- **Cymorth ariannol o dan gytundeb ar gyfer gofal maeth plentyn:** Lwfans i dalu am gostau gofalu am blentyn. Ym mis Mawrth 2021, roedd tua 55,990 o blant mewn gofal maeth. Mae gan gynllun HwF Breimiwm Plentyn sydd i fod i gyfrif am y costau sy'n gysylltiedig â magu plant. Fodd bynnag, rydym yn credu y dylem gydnabod y gallai fod costau ychwanegol o ran lletya plentyn sy'n derbyn gofal, a bod y lwfansau hyn yn cael eu darparu'n benodol i helpu gofaluwyr maeth i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn. Rydyn ni'n cynnig egluro pan fydd rhiant maeth yn cael cymorth ariannol i faethu, bydd yr incwm hwn yn cael ei ddiystyru – hyd yn oed os yw'r cymorth **yn uwch** na throthwy perthnasol y Premiwm Plentyn. Byddai hyn yn osgoi cyfrif ddwywaith yn anfwriadol, a dyma'r dull a ddefnyddir yn y cynllun cymorth cyfreithiol.

### 3. Incwm a ddarperir at ddibenion diwallu angen ariannol ar unwaith

- **Taliadau ymlaen llaw a wneir ar gyfrif o dan y Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau gwaddol eraill:** Bwriad benthyciadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau oedd helpu pobl i gyllidebu cyn cwblhau eu cais am fudd-dal. Roedd 277,000 o geisiadau ymlaen llaw ym mis Mai 2020. Rydym yn cynnig eithrio hyn oherwydd bod y taliadau'n cael eu gwneud i bobl sydd eisoes wedi profi i'r Adran Gwaith a Phensiynau bod angen yr arian hwn arnynt yn syth oherwydd eu hamgylchiadau ariannol. Nid ydym yn credu y byddai'n

briodol iddynt dalu ffioedd gyda'r arian hwn. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.

- **Taliad Cymorth Profedigaeth:** Taliad ar gael am hyd at 21 mis i'r rheini y mae eu partner wedi marw a naill ai wedi talu digon o gyfraniadau YG neu wedi marw oherwydd damwain yn y gwaith. Roedd 55,000 o hawlwr ym mis Medi 2021. Diystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.

## Tynnu o'r cynllun

Rydym yn cynnig tynnu'r taliadau canlynol o'r rhestr diystyriadau:

- **Budd-dal Tai:** Helpu i dalu rhent i'r rheini sy'n ddi-waith, ar incwm isel neu'n hawlio budd-daliadau. Roedd 2.7 miliwn o hawlwr ym mis Awst 2021. Mae cael ei ddisodli gan y Credyd Cynhwysol, er bod y rheini sydd mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu sy'n byw mewn tai â chymorth, tai gwarchod neu dai dros dro yn dal yn gallu ymgeisio. Gan fod LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn darparu lwfans ar gyfer tai, ac mae gennym bremymau i ystyried maint aelwydydd mwy, credwn fod ein lwfansau arfaethedig eisoes yn ystyried y gwariant sydd ei angen ar gyfer tai. **Ni** ddiystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
- **Bonws Dychwelyd i'r Gwaith:** Bonws o hyd at £1000 o ganlyniad i ostyngiad yn y Lwfans Ceisio Gwaith o ganlyniad i gael gwaith. Diddymwyd hwn yn 2004 ac nid yw'n cael ei ddefnyddio bellach. Mae'r Adolygiad Prawf Modd yn cynnig dileu hyn o'r cynllun cymorth cyfreithiol.
- **Elfen Tai y Credyd Pensiwn:** Ychwanegiad i Credyd Pensiwn ar gyfer pobl oed pensiwn y wladwriaeth, i dalu rhenti tir, taliadau gwasanaeth ayb. Roedd 1.4 miliwn o hawlwr Credyd Pensiwn, er nad ydym yn gwybod faint sy'n hawlio'r budd-dal ychwanegol hwn. **Ni** ddiystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol. Nid ydym yn credu bod sail resymegol i nodi'r costau tai penodol hynny sy'n cael eu cynnwys yn nata LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

- **Lwfans Rhiant Gweddw:** Lwfans i dalu am ofal plant yn dilyn marwolaeth partner, ar gyfer y rheini sydd o dan Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, sy'n hawlio budd-dal plant ac y digwyddodd eu profedigaeth cyn 6 Ebrill 2017. Roedd tua 20,000 o hawlwr ym mis Awst 2021. **Ni** ddiystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
- **Elfen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith:** Arian ychwanegol i gefnogi rhieni sy'n gweithio sy'n talu am ofal plant. Bydd yn cael ei gyfuno â Chredyd Cynhwysol yn 2024. Roedd tua 100,000 o deuluoedd yn hawlio hwn ym mis Ebrill 2021. Mae gofal plant eisoes yn cael ei gynnwys fel math o wariant yn LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol. **Ni** ddiystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol.

### Ychwanegu at y cynllun

Rydym yn cynnig ychwanegu'r taliadau canlynol at y rhestr diystiriadau:

- **Elfennau Anabledd ac Anabledd Difrifol o Gredyd Treth Plant:** Ar gyfer y rheini sy'n hawlio Credyd Treth Gwaith sydd ag anabledd neu anabledd difrifol. Roedd tua 63,000 o deuluoedd yn hawlio ym mis Ebrill 2021. **Ni** ddiystyrir y budd-dal hwn yn y cynllun cymorth cyfreithiol sifil, er y diystyrir budd-daliadau anabledd eraill. Credwn fod cyfiawnhad rhesymol dros ei ychwanegu at gynllun HwF. Mae hyn yn bennaf ar y sail y byddai'n gyson â'n safbwynt ar gredyd treth plant, lle'r ydym yn diystyru'r elfennau anabledd ac anabledd difrifol. Byddai peidio â chywiro'r anghysondeb hwn yn arwain at drin ceiswyr mewn sefyllfaoedd tebyg yn anghyfartal.

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

## Cynigion y prawf incwm

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'n methodoleg arfaethedig i bennu'r trothwyon incwm gan ddefnyddio data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno â'n methodoleg arfaethedig i ddefnyddio'r 5ed degradd incwm i bennu'r trothwyon incwm? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r categorïau gwariant 'hanfodol' a 'heb fod yn hanfodol', fel y nodir yn **Atodiad B**, at ddibenion cyfrifo'r trothwyon incwm? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddefnyddio graddfa cywerthedd wedi'i haddasu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i sefydlu'r Premiwm Cwpl a Phremiwm Plentyn? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i osod dwy lefel o Breimiwm Plentyn – premiwm is i blentyn rhwng 0 a 13 oed a phremiwm uwch i blentyn dros 14 oed? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddefnyddio data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019/20 i bennu'r trothwy incwm a Phremiymau? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i adolygu'r trothwyon incwm (fel y nodir yn y tabl o dan baragraff 70 uchod) pan fydd data LCF 2021/22 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cael ei gyhoeddi yn 2023? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i wrthod addasu'r trothwyon incwm yn ôl chwyddiant fel yr esbonnir uchod? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiweddarau'r rhestr o ddiystiriadau incwm fel yr amlinellir uchod, ac yn **Atodiad C**? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 10:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gynnal y rhestr gyfredol o fudd-daliadau prawf modd ar gyfer pasbortio ymgeiswyr drwy'r prawf incwm? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r diffiniad o incwm misol gros yn unol â pharagraff 94? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 12:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i roi dewis i ymgeiswyr rhwng defnyddio incwm misol neu incwm cyfartalog tri mis ar gyfer y prawf incwm? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 13:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r diffiniad incwm misol gros i beidio â chynnwys tyniadau fel incwm mwyach? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## Cynigion ynghylch y polisi dileu ffioedd yn rhannol

**Cwestiwn 14:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddisodli'r rheol gostyngiad rhannol sefydlog o 50% gyda'r cynllun tapro tri band a nodir uchod? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 15:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i leihau'r cap incwm aelwydydd misol gros i £3,000 uwchben y trothwy incwm misol gros? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## Cynigion y prawf cyfalaf

**Cwestiwn 16:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r diffiniad o gyfalaf gwario i olygu 'cynilion a buddsoddiadau' gyda rhestr anghyflawn o enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys fel y nodir ym mharagraff 119? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 17:** A ydych yn cytuno â'n cynnig i gynnal yr egwyddor o ddefnyddio gwariant tri mis ar gyfer pennu'r trothwy cyfalaf is, ac yn unol â hynny i godi'r trothwy cyfalaf is i £4,250? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 18:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddisodli'r system trothwy deg band presennol â strwythur tri band syml fel y nodir ym mharagraff 129? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 19:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gynyddu'r terfyn oedran i gyd-fynd ag oedran pensiwn y wladwriaeth ar hyn o bryd, sef 66? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 20:** Os caiff y diffiniad o gyfalaf gwario ei ddiwygio fel sy'n cael ei gynnig o dan baragraff 120 uchod, a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddiweddarau'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf er mwyn dileu'r eitemau canlynol? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

- dodrefn tŷ ac eiddo'r brif annedd neu'r unig annedd a feddiannir gan y parti
- eitemau o ddillad personol
- offer a chyfarpar masnach, gan gynnwys cerbydau a ddefnyddir at ddibenion busnes

**Cwestiwn 21:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf i gynnwys y rhestr o gynlluniau iawndal o dan baragraff 147? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 22:** A oes taliadau eraill y dylid eu hychwanegu at y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf ochr yn ochr â'r taliadau ychwanegol a gynigir o dan baragraff 147? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 23:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno terfyn amser o 24 mis ar gyfer taliadau iawndal presennol a ddiystyrir dan gynllun HwF ac (os caiff y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf ei hymestyn yn unol â'n cynnig uchod) taliadau ychwanegol arfaethedig – yn unol â'r tabl o dan baragraff 153? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

## Cynigion ynghylch y broses ymgeisio

**Cwestiwn 24:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r datganiad a'r datganiad gwirionedd yn y cais HwF i ganiatáu'n benodol i gyfeillion cyfreitha a chynrychiolwyr cyfreithiol lenwi a llofnodi ar ran yr ymgeiswyr? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.



**Cwestiwn 25:** A ydych yn cytuno â'n cynnig i ychwanegu darpariaeth yn y Gorchmynion Ffioedd i nodi pan fydd cais i ddileu ffi yn anghyflawn, neu pan fydd angen gwybodaeth ychwanegol, rhaid darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani o fewn y cyfnod a hysbysir yn ysgrifenedig i'r ceisydd. Os na ddarperir y wybodaeth y gofynnir amdani, bydd y cais yn cael ei drin fel cais sy'n cael ei adael. Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 26:** Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i asesu ceiswyr yn ystod y cyfnod pontio fel y nodir yn y senarios uchod? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

### **Dadansoddiad o effeithiau ar gydraddoldeb**

**Cwestiwn 27:** A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir hyd a lled yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan bob un o'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel y bo'n briodol.

**Cwestiwn 28:** Oes unrhyw ddull lliniaru o ran effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi ei ystyried? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

## Asesiad effaith

1. Mae Asesiad Effaith ffurfiol wedi cael ei baratoi ar gyfer y cynnig hwn ac mae wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

## Cydraddoldeb

2. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i'r Llywodraeth, fel rhan o ddatblygu polisi, ystyried effaith ein cynnig ar gydraddoldeb. Yn gryno, rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb roi sylw i'r canlynol wrth arfer eu swyddogaethau:
  - dileu gwahaniaethu , aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf;
  - datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu;
  - meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.
3. At ddibenion yr asesiad cydraddoldeb, y nodweddion gwarchoddedig perthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw: hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.
4. Mae Datganiad Cydraddoldeb ffurfiol wedi cael ei baratoi ar gyfer y cynnig hwn ac mae wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

## Y Gymraeg

5. Byddai'r cynnig hwn, pe bai'n cael ei weithredu, hefyd yn effeithio ar y rhai sy'n siarad Cymraeg.
6. Mae fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon ar gael yn:  
<https://www.gov.uk/government/consultations/revising-the-help-with-fees->

remission-scheme. Darperir copi Cymraeg o'r Aseiad Effaith a'r Datganiad Cydraddoldeb ar gais.

# Amdanoch chi

Rhowch wybodaeth amdanoch chi yn yr adran hon

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw hynny'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (pl ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp a chrynhoi'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

---

---

---

---

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 30 Mai 2023 at:

Fees Policy  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
London SW1H 9AJ

E-bost: MOJ Fees Policy [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copiâu ychwanegol

Gellir cael copiâu papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Mae modd gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy anfon e-bost at Bolisi Ffioedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn [mojfeespolicy@Justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@Justice.gov.uk)

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn maes o law. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

## Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r mudiadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data Y Deyrnas Unedig (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin yr wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o'r farn bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth ar ei ben ei hun.

Os nad ydych chi am i'ch enw/manylion corfforaethol gael eu datgelu fel hyn, yna fe'ch cynghorir i ymateb yn ddiennw (er enghraifft fel 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd').

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partion.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch Siarter Gwybodaeth Bersonol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/691383/Consultation\\_Principles\\_\\_1\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf)



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i Bolisi Ffioedd, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn: [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)